



Llywodraeth Cymru

Dogfen ymgynghori

# Datganoli Trethi yng Nghymru – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 16 Gorffennaf 2020

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 15 Hydref 2020

<b>Trosolwg</b>	Ymgynghoriad polisi yn ceisio barn ynglŷn â Datganoli Trethi yng Nghymru: Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.
<b>Sut i ymateb</b>	Gellir anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy'r e-bost neu'r post i'r cyfeiriad isod a dylent gyrraedd erbyn 15 Hydref 2020 fan bellaf.
<b>Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig</b>	<p><b>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.</b></p> <p>Gellir gweld y ddogfen ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru yn <a href="https://llyw.cymru/ymgyngoriadau">https://llyw.cymru/ymgyngoriadau</a></p>
<b>Manylion cyswllt</b>	<p>Trysorlys Cymru 3<sup>yd</sup> Llawr - Craidd y Dwyrain Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ</p> <p><b>E-bost:</b> <a href="mailto:TrysorlysCymru@llyw.cymru">TrysorlysCymru@llyw.cymru</a></p>

# Cynnwys

Rhagair

Tudalen

Pennod 1: Cyflwyniad a chefnidir polisi

1

Pennod 2: Dulliau presennol o newid trethi datganoledig

5

Pennod 3: Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

19

Pennod 4: Astudiaethau achos

28

Atodiad 1: Asesiad Effaith Cychwynnol

38

Atodiad 2: Geirfa

46

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost: [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Roedd datganoli trethi yng Nghymru yn ddigwyddiad hanesyddol yn hanes gwleidyddol Cymru. Am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i weithredu ein trethi ein hunain yng Nghymru sy'n adlewyrchu ein hamgylchiadau unigryw.

Mae'r penderfyniad i gyflwyno dwy dreth ddatganoledig, sef treth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi, a sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) i'w briodoli i raddau helaeth i'r cyfraniadau gwerthfawr a wnaed gan amrywiaeth eang o randdeiliaid a sefydliadau.

Yn sgil cyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019, mae tua £5 biliwn o wariant yng Nghymru bellach yn cael ei gyllido drwy drethi datganoledig a lleol – treth trafodiadau tir, treth gwarediadau tirlenwi, cyfraddau treth incwm Cymru, y dreth gyngor ac ardrethi annomestig. Mae'r ddwy dreth ddatganoledig eisoes wedi cynhyrchu mwy na £500 miliwn yn eu dwy flynedd gyntaf, refeniw sy'n cyllido gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn uniongyrchol.

Rwyf hefyd wedi dechrau ar y cam nesaf yn y broses o ddatganoli trethi drwy ystyried trethi newydd i Gymru. Gallai hyn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i Gymru, gan ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau polisi, boed hynny drwy newid ymddygiad, codi refeniw i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus, gwella ecwiti, neu gyfuniad o bob un ohonynt. Am y tro cyntaf, rydym yn llywio proses Deddf Cymru i drosglwyddo'r pwerau perthnasol i Gymru mewn perthynas â threth newydd (treth ar dir gwag), ac rwy'n awyddus i brofi'r mecanwaith a allai greu rhagor o gyfleoedd i bolisi trethi helpu i gyflawni ein hamcanion.

Mae fy egwyddorion ar gyfer trethi Cymru yn sefydledig. Rwy'n awyddus i ddatblygu trethi sy'n deg i'r busnesau a'r unigolion sy'n eu talu; sy'n syml, gyda rheolau clir, sy'n anelu at leihau costau cydymffurfio a gweinyddu; sy'n cefnogi twf a swyddi a fydd, yn ei dro, yn helpu i drechu tlodi; ac sy'n cynnig sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr. Yn y pen draw, y nod yw defnyddio trethiant i helpu i gyflawni amcanion polisi a chynhyrchu refeniw ar gyfer cyllido gwasanaethau cyhoeddus hanfodol y mae ein trigolion yn dibynnu arnynt, gan helpu i greu gwlad rydym oll am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Nawr mae angen inni ystyried a oes gennym yr adnoddau cywir a phriodol er mwyn sicrhau y gallwn wneud newidiadau i "Ddeddfau Trethi Cymru" ar fyr rybudd o dan nifer o amgylchiadau. Mae hyn yn cynnwys os byddwn yn dod yn ymwybodol o weithgarwch osgoi neu efadu trethi y gellir rhoi terfyn arno ar unwaith drwy newid deddfwriaethol, yn ogystal â sicrhau bod Deddfau Trethi Cymru yn parhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol. Fodd bynnag, y peth mwyaf arwyddocaol yw pan wneir newidiadau i drethi "rhagflaenol" y DU gan Lywodraeth y DU.

Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen inni ddiogelu'r refeniw sydd ar gael i'n gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Ar hyn o bryd, bob tro y ceir cylch cyllideb y DU rydym yn cymryd y risg y gallai newid gael ei wneud sy'n effeithio ar drethi datganoledig. Gallai newidiadau o'r fath gael goblygiadau ar gyfer busnesau, y farchnad eiddo ac effaith cyllidebol uniongyrchol ar adnoddau. Gallai hyn fod yn fwy tebygol nawr mewn gwirionedd wrth i fesurau adfer ddechrau cael eu rhoi ar waith.

Rwy'n benderfynol o sicrhau bod gennym yr adnoddau priodol ar gyfer ein trethi datganoledig. Un o'r prif nodau yw darparu pwerau i Weinidogion Cymru allu ymateb i Gyllideb y DU mewn modd amserol, cymesur a hyblyg er mwyn diogelu refeniw Cymru.

Yn fy marn i, mae'r cynigion deddfwriaethol yn darparu ateb synhwyrol, yng nghyd-destun trethi datganoledig ac unrhyw drethi posibl yng Nghymru yn y dyfodol. Gobeithio y byddwch yn fodlon rhannu eich barn ac unrhyw syniadau eraill ynglŷn â sut y dylem fynd i'r afael â'r mater hwn – edrychaf ymlaen at ddarllen eich ymatebion.

**Rebecca Evans**

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Gorffennaf 2020

## Pennod 1 – Cyflwyniad a chefnidir polisi

### Cefndir Trethi Datganoledig yng Nghymru

- 1.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o gefndir trethi datganoledig yng Nghymru a nodau Llywodraeth Cymru wrth gynnig cyflwyno dull deddfwriaethol i'w gwneud yn bosibl i newidiadau gael eu gwneud, mewn sefyllfaoedd penodol, i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017. Er mwyn bod yn gryno, mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r label "Deddfau Trethi Cymru" i gwmpasu'r Deddfau hynny a'r is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny.
- 1.2 Diwygiodd Deddf Cymru 2014<sup>1</sup> Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn darparu ar gyfer sefydlu trethi datganoledig a datgymhwyso trethi rhagflaenol<sup>2</sup> y DU yng Nghymru. Hefyd, creodd y Ddeddf ddull o ddatganoli trethi ychwanegol i Senedd Cymru ("y Senedd") a all naill ai ddisodli trethi presennol y DU neu sy'n drethi newydd a luniwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd Papur Gorchymyn *Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso Ariannol*<sup>3</sup> yn cynnwys gwybodaeth esboniadol am y broses o ddatganoli trethi newydd i'r Senedd.
- 1.3 Cyflwynwyd dwy dreth ddatganoledig yng Nghymru yn 2018: treth trafodiadau tir a ddisodlodd dreth dir y dreth stamp a threth gwarediadau tirlenwi a ddisodlodd dreth dirlenwi. Sefydlodd Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016<sup>4</sup> fframwaith llywodraethu clir a chadarn yng Nghymru er mwyn helpu i gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn effeithiol a sefydlodd Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC").
- 1.4 Neilltuir cyfran o'r adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth y DU i Gymru a gelwir hyn yn 'grant bloc'<sup>5</sup>. Cadarnhaodd Papur Gorchymyn *Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso Ariannol* y byddai'r cyllid a geir o grant bloc Llywodraeth y DU yn cael ei leihau i adlewyrchu'r refeniw disgwylidig o drethi a gollid gan Lywodraeth y DU. Mae hyn er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod pwerau codi refeniw newydd Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i ddatganoli'r pwerau sy'n gysylltiedig a threth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi a chyfraddau treth incwm Cymru, yn golygu y bydd y refeniw hwnnw bellach yn llifo'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn hytrach na Thrysorlys y DU. Gelwir y swm a ddiwynnir o'r grant bloc yn addasiad i'r grant bloc.

---

<sup>1</sup> Mae Deddf Cymru 2014 ar gael yn:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted>

<sup>2</sup> Ar hyn o bryd mae 'trethi rhagflaenol' yn cyfeirio at Dreth Dir y Dreth Stamp a Threth Dirlenwi, sef trethi'r DU sy'n cyfateb i'r trethi sydd bellach wedi'u datganoli yng Nghymru.

<sup>3</sup> Papur Gorchymyn *Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso Ariannol* (Mawrth 2014)

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/294471/Wales\\_Bill\\_Command\\_Paper\\_-\\_Welsh.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf)

<sup>4</sup> Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi 2016 ar gael yn:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/contents/enacted>

<sup>5</sup> Dyrennir y cyllid i Lywodraeth Cymru yn unol â fformiwla Barnett, sy'n darparu cyllid yn seiliedig ar lefelau cyllido ardaloedd datganoledig yn Lloegr.



1.5 Mae Llywodraeth Cymru yn monitro cyhoeddiadau Llywodraeth y DU ar y trethi rhagflaenol yn ofalus er mwyn gweld sut y gallant effeithio ar y trethi datganoledig. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn briodol er mwyn sicrhau bod ei chyllideb a'i chynlluniau yn parhau i gael eu cyllido a bod y trethi a godir yng Nghymru yn dal i fod yn deg, gan gydbwyso ystyriaethau cyllidol â'r effaith ar drethdalwyr a'r economi ehangach. Caiff unrhyw ymateb i gyhoeddiad gan Lywodraeth y DU ei gysoni ag egwyddorion treth Llywodraeth Cymru, sy'n nodi y dylai trethi Cymru wneud y canlynol:

- codi referniw i gyllido gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl
- cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn enwedig cefnogi twf a swyddi
- bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml
- cael eu datblygu drwy gydweithio a chyfranogi
- cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

1.6 Cyflwynwyd cyfraddau treth incwm Cymru, o'r diwedd, ym mis Ebrill 2019. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei hymrwymiad i beidio â chynyddu treth incwm i drethdalwyr yng Nghymru o gymharu â threthdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon<sup>6</sup> yn ystod tymor presennol y Senedd. Mae wedi pennu cyfraddau treth incwm Cymru ar 10c, sy'n cyfateb i'r gostyngiadau a wnaed gan Lywodraeth y DU i'r cyfraddau yng Nghymru. O ganlyniad, mae trethdalwyr Cymreig yn talu'r un cyfraddau treth cyffredinol â threthdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i geisio'r pwerau sydd eu hangen i ddatganoli toll teithwyr awyr (mae pwerau eisoes wedi'u rhoi i'r Alban a Gogledd Iwerddon) ac ar gyfer treth newydd ar dir sy'n addas i'w ddatblygu (treth ar dir gwag).

### ***Diben deddfwriaeth i'w gwneud yn bosibl i newidiadau gael eu gwneud i Ddeddfau Trethi Cymru***

1.7 Bwriedir i'r gallu i newid deddfwriaeth trethi yn gyflym alluogi Llywodraeth Cymru i ymateb i senarios lle mae'n ddymunol i'r newid ddod i rym ar unwaith neu'n fuan iawn wedi hynny. Gall newid o'r fath fod yn briodol os bydd angen i Drysorlys Cymru ac ACC 'gau' cynlluniau osgoi trethi ar unwaith, mynd i'r afael ag achosion o efadu trethi, neu barhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol. O safbwynt osgoi trethi ac efadu trethi, mae ystod o bwerau ar gael i ACC eisoes ac mae'n defnyddio'r pwerau hynny i sicrhau bod pawb yn talu symiau cywir o dreth ac nad yw unrhyw un yn cael mantais annheg. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, gall fod angen newid deddfwriaethol hefyd i roi mwy o eglurder ynghylch cymhwyso'r darpariaethau dan sylw, neu er mwyn eu cymhwyso mewn modd llymach.

---

<sup>6</sup> Mae Llywodraeth yr Alban wedi defnyddio ei phwerau i greu cyfraddau a bandiau treth gwahanol i drethdalwyr yn yr Alban.

- 1.8 Bwriedir iddo hefyd alluogi Llywodraeth Cymru i ymateb yn gyflym i newidiadau a wneir ar unwaith i drethi'r DU sydd wedi'u datganoli i Gymru ("trethi rhagflaenol"). Gall newidiadau o'r fath gael effaith gyllidebol uniongyrchol ar yr adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru drwy broses addasu'r grant bloc (gweler paragraff 1.4).
- 1.9 Gall fod i unrhyw newidiadau i'r trethi rhagflaenol sy'n effeithio ar yr addasiad i'r grant bloc oblygiadau i fusnesau, y farchnad eiddo a'r amgylchedd. Er enghraifft, bydd newidiadau uniongyrchol i dreth dir y dreth stamp sy'n arwain at gynnydd yn y refeniw y mae Llywodraeth y DU yn ei gael o drethi yn cynyddu'r addasiad i'r grant bloc ac yn lleihau cyllideb Llywodraeth Cymru. Yn y senario hwn, byddai angen i Lywodraeth Cymru weithredu â chyllideb lai neu ddod o hyd i ffyrdd eraill o godi refeniw o'r fath er mwyn cynnal y lefelau presennol o adnoddau.
- 1.10 Ar y llaw arall, os bydd Llywodraeth y DU yn gwneud newidiadau sy'n lleihau'r refeniw y mae'r DU yn ei gael o dreth dir y dreth stamp, bydd yr addasiad i'r grant bloc yn lleihau a bydd cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynyddu. Yn y mathau hyn o senarios pan wneir gostyngiadau treth i drethi rhagflaenol y DU, efallai y bydd angen gweithredu'n gyflym er mwyn lleihau ystumiadau (annymunol o bosibl) i farchnadoedd a allai niweidio busnesau yng Nghymru.

### **Prosesau cyllidebol presennol yng Nghymru a'r DU**

- 1.11 Fel arfer, cyhoeddir newidiadau i drethi'r DU fel rhan o gyllidebau'r DU. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhain wedi'u cyhoeddi yn yr hydref (29 Hydref 2018 a 22 Tachwedd 2017) wrth i Lywodraeth y DU newid i un digwyddiad cyllidol blynyddol<sup>7</sup>. Fodd bynnag, gall nifer ac amseriad digwyddiadau cyllidol y DU bob blwyddyn amrywio o hyd. Er enghraifft, ni chyhoeddwyd unrhyw Gyllideb yn y DU yn 2019 a chyhoeddwyd Cyllideb ym mis Mawrth yn 2020.
- 1.12 Nododd canllawiau Llywodraeth y DU yn 2017 y bydd y rhan fwyaf o bolisiâu treth yn parhau i gael eu datblygu drwy gylch sefydledig, lle y caiff cyhoeddiad polisi adeg y gyllideb ei ddilyn gan ymgynghoriad polisi a chyhoeddi deddfwriaeth ddrafft, gyda'r polisi yn dod yn gyfraith gwlad, o'r diwedd, yn y Bil Cyllid nesaf. Fodd bynnag, mae amseriadau'r cylch hwn wedi newid ers hynny: mae polisiâu bellach yn cael eu cyhoeddi adeg y gyllideb yn yr hydref ac ymgynghorir arnynt yn y gaeaf ac yn ystod y gwanwyn. Wedyn, fel arfer, cyhoeddir deddfwriaeth ddrafft ym mis Gorffennaf er mwyn cynnal ymgynghoriad technegol arni cyn i'r Bil Cyllid nesaf gael ei gyflwyno yn yr hydref. Diben hyn yw sicrhau bod y Bil Cyllid yn cael Cydsyniad Brenhinol cyn dechrau'r flwyddyn dreth ganlynol. Ochr yn ochr â hyn, ceir hefyd nifer o newidiadau i drethi na chânt eu rhagflaenu gan ymgynghoriad na deddfwriaeth ddrafft, neu lle mae'r amserlen yn fyrrach o lawer. Mae Pennod 4 yn rhoi enghreifftiau lle mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno elfennau treth newydd ar unwaith neu'n fuan iawn ar ôl i gyhoeddiad gael ei wneud. Gellir gwneud newidiadau ar unwaith neu'n gyflym iawn er mwyn atal trethdalwyr rhag rhagflaenu neu ohirio eu trafodiadau er mwyn cael budd o

---

<sup>7</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/the-new-budget-timetable-and-the-tax-policy-making-process/the-new-budget-timetable-and-the-tax-policy-making-process>

newidiadau i drethi a gyhoeddwyd ymlaen llaw, y gall y naill neu'r llall effeithio ar referniw'r llywodraeth.

- 1.13 Fel arfer, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chyllideb ddrafft ym mis Hydref, cyn cyllideb Llywodraeth y DU yn ddiweddarach yn yr hydref. Mae'n rhaid i gyllideb derfynol Llywodraeth Cymru gael ei chymeradwyo gan y Senedd ar ddechrau mis Mawrth y flwyddyn ganlynol fan bellaf, er mwyn i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill allu pennu eu cyllidebau cyn y flwyddyn ariannol newydd. Felly, fel arfer, mae gorgyffwrdd rhwng cylch cyllidebol Llywodraeth Cymru a Bil Cyllid blynyddol y DU. Mewn blynyddoedd arferol, bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chyllideb ddrafft a'i chynigion treth cyn cyllideb y DU, ond efallai y bydd angen iddi ymateb o hyd i newidiadau i gynlluniau gwario a rheolau trethiant sy'n cwmpasu'r DU gyfan. Gall Llywodraeth Cymru gyflwyno diweddariadau cyn y pleidleisir ar y gyllideb derfynol, neu mewn cyllidebau atodol yn ystod y flwyddyn dan sylw. Fel arfer, pleidleisir ar gyllideb Llywodraeth Cymru cyn i'r Bil Cyllid gael Cydsyniad Brenhinol, a allai, o bosibl, greu cymhlethdod os gwneir newidiadau pellach ar y funud olaf i ddeddfwriaeth trethi'r DU.
- 1.14 Fel y nodwyd eisoes, nid yw amserlen gyllidebol Llywodraeth y DU yn sefydlog. Cyhoeddwyd cyllideb mis Mawrth eleni ar ôl i gyllideb derfynol Llywodraeth Cymru gael ei chyhoeddi ar 25 Chwefror. At hynny, nid yw'n anghyffredin i ddwy gyllideb gael eu cyhoeddi ar gyfer y DU yn ystod y 12 mis yn dilyn etholiad cyffredinol. Mae'r ansicrwydd hwn yn ei gwneud yn fwy anodd cynllunio ac ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau a wneir gan Lywodraeth y DU.
- 1.15 Gall Llywodraeth Cymru ohirio effaith newidiadau yn ystod y flwyddyn i'r addasiadau i'r grant bloc sy'n deillio o newidiadau i bolisi treth y DU. Os bydd unrhyw newid yn ystod y flwyddyn yn arwain at leihad yn yr addasiad i'r grant bloc, yna gellir ei ohirio tan y flwyddyn ariannol ganlynol. Fodd bynnag, gallai gohirio'r newid hwnnw arwain at bwysau cyllidebol ychwanegol mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol. Ni ellir dileu'r canlyniadau ariannol nac osgoi effaith newidiadau o'r fath.

## **Pennod 2 – Dulliau presennol o newid trethi**

### ***Trosolwg***

2.1 Mae'r bennod hon yn darparu cyd-destun ar gyfer y llwybrau a'r pwerau presennol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi allu gwneud newidiadau i Ddeddf Trethi Cymru, ac ystyried sut y gwneir newidiadau i ddeddfwriaeth treth gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban at ddibenion enghreifftiol a dibenion cymharu. Mae hefyd yn nodi prosesau posibl ar gyfer craffu ar gyllidebau, trethi a chyllid yn y dyfodol yng Nghymru.

### **Llywodraeth Cymru**

#### ***Deddfwriaeth sylfaenol***

2.2 Gall Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i'r Senedd er mwyn gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Os bydd Llywodraeth y DU, er enghraifft, yn dewis cyhoeddi cynigion newydd neu ymgynghoriad mewn perthynas â threthi rhagflaenol y DU adeg cyllideb, yna mae gan Lywodraeth Cymru gyfle i wneud y newidiadau hynny i'r trethi datganoledig cyfatebol drwy Fil. Gellid cyflwyno newidiadau eraill drwy ddeddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i bolisiau treth arloesol Llywodraeth Cymru ei hun, neu mewn ymateb i ddiwyddiadau ehangach. Fel rheol, gall y broses ar gyfer datblygu a phasio deddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru gymryd rhwng 12 a 18 mis yn dibynnu ar gwmpas y ddeddfwriaeth a busnes arall y llywodraeth sy'n mynd drwy'r Senedd.

2.3 Gall Llywodraeth y DU, o bryd i'w gilydd, gyhoeddi elfen dreth newydd ond gohirio ei chyflwyno: er enghraifft, gwneud cyhoeddiad adeg cyllideb, ymgynghori ac wedyn deddfu mewn Bil Cyllid yn y dyfodol. Yn y senario hwn, mae'n debygol y bydd gan Lywodraeth Cymru ddigon o amser i ymateb gan ddefnyddio prosesau deddfwriaeth sylfaenol y Senedd.

2.4 Fodd bynnag, cyn hyn, mae Llywodraeth y DU yn aml wedi dewis cyflwyno elfennau treth newydd ar unwaith neu'n fuan iawn ar ôl i gyhoeddiad gael ei wneud. Byddai unrhyw ddiwygiad o sylwedd i drethi rhagflaenol yn codi materion yn ymwneud â pholisi trethi i Lywodraeth Cymru a gallai hefyd effeithio ar referniw Llywodraeth Cymru drwy'r addasiad i'r grant bloc (gweler paragraffau 1.8-1.10).

2.5 Byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn cael ei rhagrybuddio am unrhyw gynlluniau i ddiwygio trethi rhagflaenol y DU, er mwyn iddi ddeall yr effeithiau a gaiff newidiadau'r DU ar yr addasiadau i'r grant bloc, ac ystyried y goblygiadau i referniw treth Llywodraeth Cymru a pholisiau ehangach. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Drysorlys EM i'w rhagrybuddio am unrhyw gynlluniau o'r fath. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni allwn ddiwynnu ar y ffaith y bydd hyn yn digwydd am fod Trysorlys EM yn rhoi blaenoriaeth lwyr i gadw cyllideb a Bil Cyllid y DU yn gyfrinachol. Ar hyn o bryd, golyga hyn fod Llywodraeth Cymru (ynghyd â gweinyddiaethau datganoledig eraill a'r cyhoedd) ond yn cael gwybod am gynnwys cyllideb a Bil Cyllid y DU yn ystod ac ar ôl araith

y Canghellor. Felly, yn aml, ni fydd Llywodraeth Cymru yn gallu defnyddio deddfwriaeth sylfaenol i roi newid polisi ar waith o fewn cyfnod tebyg i amserlen Llywodraeth y DU. Pe bai Llywodraeth Cymru am roi newid polisi tebyg ar waith, byddai angen amser i ddeall ac atgynhyrchu'r newidiadau mewn deddfwriaeth, a fyddai'n arwain at gyflwyno newidiadau gryn dipyn yn hwyrach na Llywodraeth y DU, gyda'r effeithiau posibl ar reffeniw.

2.6 Mae Pennod 4 yn rhoi enghreifftiau lle mae'r newidiadau polisi gan Lywodraeth y DU wedi'u cyflwyno ar unwaith (yn ogystal ag enghreifftiau o newidiadau lle roedd y dyddiad dod i rym wedi'i ohirio).

### ***Proses Bil brys a 'charlam'***

#### **Biliau Brys**

2.7 Anaml y defnyddir Biliau Brys yn Senedd y DU nac yn y deddfwrfeydd datganoledig eraill. Yng Nghymru, Bil Brys yw Bil Llywodraeth Cymru y mae angen ei ddeddfu'n gyflymach nag a ganiateir gan broses deddfwriaethol arferol y Senedd<sup>8</sup>. Ni ddarperir diffiniad o Fil Brys yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 nac yn Rheolau Sefydlog y Senedd, er bod Rheol Sefydlog 26.95 yn datgan:

“Os yw'n ymddangos i aelod o'r llywodraeth fod angen Bil Brys, caiff gynnig bod Bil llywodraeth, a gyflwynir yn y Senedd, yn cael ei drin fel Bil Brys llywodraeth.”

2.8 Diben cyflwyno Bil Brys yw galluogi darpariaethau cyfreithiol brys i gael eu deddfu'n gyflym. Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn nodi fersiwn symlach o brosesau deddfwriaethol arferol y Senedd er mwyn osgoi unrhyw oedi. Mae'r ffordd y bydd y Senedd yn ystyried Bil Brys yn dilyn yn fras gamau arferol ystyriaeth y Senedd o Fil (a elwir yn Gyfnod 1, Cyfnod 2, Cyfnod 3 a Chyfnod 4), ond gyda rhai newidiadau arwyddocaol er mwyn eu cyflymu.

---

<sup>8</sup> Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd, Mai 2019, tudalen 188:  
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/llawlyfr-deddfwriaeth-ar-filiaur-cynulliad.pdf>

**Tabl 1: Cyfnodau Bil**

Cyfnod	Camau Gweithredu
<b>Cyflwyno</b>	Cyflwyno'r Bil a'i gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg (Datganiadau ysgrifenedig a llafar yn cael eu gwneud gan y Gweinidog Arweiniol)
<b>Cyfnod 1</b>	Un o Bwyllgorau'r Senedd yn ystyried y Bil
<b>Egwyddorion Cyffredinol</b>	Gofyn i'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil (os cytunir arnynt bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2, ond os na chytunir arnynt bydd y Bil yn methu)
<b>Cyfnod 2</b>	Ystyriaeth fanwl gan un o Bwyllgorau'r Senedd (gellir cyflwyno gwelliannau i'r Bil yn ystod y Cyfnod hwn)
<b>Cyfnod 3</b>	Ystyriaeth fanwl gan y Cyfarfod Llawn (gellir cyflwyno gwelliannau i'r Bil yn ystod y Cyfnod hwn)
<b>Cyfnod 4</b>	Gofyn i'r Senedd basio'r Bil fel y'i diwygiwyd (os cytunir ar hyn, bydd y Bil yn symud ymlaen i gael Cydsyniad Brenhinol, ond os na chytunir ar hyn bydd y Bil yn cael ei wrthod)

2.9 Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dau Fil Brys, y pasiwyd y ddau ohonynt gan y Senedd ac a ddaeth i rym fel Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 a Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018. Ystyrir yr amseriadau a'r angen i ddefnyddio'r broses frys fesul achos ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru geisio cymeradwyaeth y Senedd i symud ymlaen yn y modd hwn. Gall proses y Senedd ddigwydd yn gyflym iawn (mewn cyn lleied o amser ag un diwrnod) ond mae'r cyfnod hysbysu a'r cyfnod penderfynu yn dal i fod yn rhan angenrheidiol o broses y Bil (gweler paragraffau 2.19-2.21).

2.10 Yn achos yr ail, er enghraifft, roedd amseriadau Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 fel a ganlyn:

- Fe'i cyflwynwyd ar 7 Mawrth 2018
- Cyfnod 1 - 13 Mawrth 2018
- Cyfnod 2 - 20 Mawrth 2018
- Cyfnod 3 a 4 - 21 Mawrth 2018
- Cydsyniad Brenhinol - 6 Mehefin 2018.

2.11 At ei gilydd, cymerodd y broses ddeddfwriaethol o gyflwyno'r Bil i gael Cydsyniad Brenhinol 13 wythnos, gyda dim ond tair wythnos rhwng cyflwyno'r Bil a'i gymeradwyo gan y Senedd. Er mwyn cymharu hyn ag amseriadau mewn proses ddeddfwriaethol sylfaenol fwy arferol, aeth Deddf Treth Trafodiadau Tir a

Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 drwy'r Senedd mewn ychydig dros 35 wythnos:

- Fe'i cyflwynwyd ar 12 Medi 2016
- Cyfnod 1 - 10 Ionawr 2017
- Cyfnod 2 - 16 Chwefror 2017
- Cyfnod 3 - 28 Ebrill 2017
- Cyfnod 4 - 4 Ebrill 2017
- Cydsyniad Brenhinol - 24 Mai 2017.

### Biliau a osodir ar lwybr carlam

2.12 Mae'r term 'gosod ar lwybr carlam' yng Nghymru yn disgrifio'r hyn sy'n digwydd i Fil sy'n dilyn y broses deddfwriaethol bedwar cyfnod arferol, ond yn gwneud hynny mewn cyn lleied o amser â phosibl. Yn benodol, fel arfer ni chyfeirir Biliau carlam at un o Bwyllgorau'r Senedd er mwyn iddo ei ystyried yn fanwl. Yn lle hynny, bydd Biliau carlam yn mynd yn syth i Gyfnod 1 a'r ddatl ar yr egwyddorion cyffredinol ar ôl iddynt gael eu cyflwyno<sup>9</sup> yn amodol ar gytundeb Pwyllgor Busnes y Senedd.

2.13 Nid Biliau Brys yw Biliau Carlam, ac nid yw'r un gofynion na gwahaniaethau yn y Rheolau Sefydlog yn gymwys iddynt. Mae Bil ar lwybr carlam yn mynd drwy'r Cyfnodau mor gyflym ag y bo modd, ond gwneir hynny yn unol â'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Bil arferol. Felly, mater o reoli'r amserlen yn hytrach na gweithdrefn ffurfiol yw gosod deddfwriaeth ar lwybr carlam. Tra bo hynt Bil arferol drwy'r Senedd fel arfer yn cymryd rhwng 6 ac 8 mis, gallai Bil llwybr carlam gymryd tua 3 mis<sup>10</sup>.

2.14 Fel yn achos Biliau Brys, prin yw'r defnydd a wneir o Filiau llwybr carlam. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dau Fil o'r fath, a'r ddau ohonynt wedi cael eu pasio gan y Senedd. Daeth y ddau Fil brys yn Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014<sup>11</sup> a Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014<sup>12</sup>.

2.15 Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 na'r Rheolau Sefydlog yn rhoi diffiniad o'r hyn y dylid ei ystyried yn Fil 'Brys' neu 'garlam'. Mae ymchwil i'r Biliau Brys a ddatblygwyd gan y deddfwrfeydd datganoledig eraill a Senedd y DU yn datgelu

---

<sup>9</sup> Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd, Mai 2019, tudalen 191:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/llawlyfr-deddfwriaeth-ar-filiaur-cynulliad.pdf>

<sup>10</sup> Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd, Mai 2019, tudalen 190:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/llawlyfr-deddfwriaeth-ar-filiaur-cynulliad.pdf>

<sup>11</sup> Ymatebodd y Ddeddf hon i adroddiadau gan Bwyllgorau'r Senedd a Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'i rhoddwyd ar y llwybr carlam er mwyn cyflawni'r argymhelliad y dylai'r pwerau fod ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

<sup>12</sup> Diben y Ddeddf hon oedd rhoi'r pwerau angenrheidiol i awdurdodau lleol fynd i'r afael â phori ceffylau yn anghyfreithlon cyn y gaeaf

eu bod yn digwydd gan amlaf fel ymateb i argyfyngau, digwyddiadau penodol neu ddyfarniadau llys<sup>13</sup>.

2.16 Yn 2009 bu Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi yn ystyried deddfwriaeth o'r fath a rhestrodd nifer o resymau pam y rhodddwyd Biliau ar y llwybr carlam yn Senedd y DU<sup>14</sup>. Roedd y rhain yn cynnwys:

- a. unioni anghysondeb, amryfusedd, gwall neu ansicrwydd a ddaeth i'r amlwg mewn deddfwriaeth;
- b. ymateb i effeithiau dyfarniad llys;
- c. sicrhau bod deddfwriaeth mewn grym mewn da bryd ar gyfer digwyddiad sydd ar fin cael ei gynnal;
- d. delio ag argyfwng economaidd;
- e. newid y terfynau ar fenthyciadau y caiff awdurdod cyhoeddus eu cymryd neu eu rhoi, neu faterion cyllido eraill;
- f. delio ag argyfwng mewn carchardai o ganlyniad i weithredu diwydiannol;
- g. ymateb i gytundebau rhyngwladol;
- h. gweithredu cyhoeddiadau'r Trysorlys yn y Gyllideb neu ddatganiad yr hydref.

2.17 Er bod 'gweithredu cyhoeddiadau'r Trysorlys yn y gyllideb neu ddatganiad yr hydref' wedi'i gynnwys yn 'h.' prin yw'r enghreifftiau lle mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio proses Bil Carlam neu Fil Brys y tu allan i Filiau Cyllid blynyddol i wneud newidiadau polisi i ddeddfwriaeth trethi (gweler paragraffau 2.32 – 2.41 am enghreifftiau o'r dulliau deddfwriaethol sydd ar gael i Lywodraeth y DU wneud newidiadau). Enghraifft ddiweddar oedd cyflwyno cyfundrefn codi treth fesul haen<sup>15</sup> ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl ar gyfer treth dir y dreth stamp a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref 2014. Mae enghraifft 4 ym Mhennod 4 yn nodi'r amserlenni byrrach ar gyfer cyflwyno'r strwythur codi treth fesul haen newydd drwy Ddeddf Treth Dir y Dreth Stamp 2015, a gyflwynodd y newidiadau a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref 2014 ar unwaith drwy gynigion a basiwyd o dan Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 ar 4 Rhagfyr 2014. Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 12 Chwefror 2015. Mae Biliau Cyllid blynyddol Llywodraeth y DU hefyd yn dilyn llwybr cyflymach drwy'r Senedd na'r rhan fwyaf o Filiau. Nid oes gan y Senedd unrhyw broses gyfatebol.

2.18 Er enghraifft, defnyddiodd Llywodraeth yr Alban broses Bil a osodwyd ar lwybr carlam er mwyn sicrhau y gallai ddilyn yr un llinell amser â Llywodraeth y DU ar ddechrau 2016 i gyflwyno polisi tebyg i gyfraddau uwch treth dir y dreth stamp ar brynu eiddo preswyl ychwanegol (treth atodol anheddau ychwanegol ar

---

<sup>13</sup> Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd, Mai 2019, tudalen 192:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/llawlyfr-deddfwriaeth-ar-filiaur-cynulliad.pdf>

<sup>14</sup> Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd, Mai 2019, tudalen 192:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/llawlyfr-deddfwriaeth-ar-filiaur-cynulliad.pdf>

<sup>15</sup> Codir treth dir y dreth stamp mewn 'haenau', felly rydych yn talu cyfradd benodol ar y rhan o werth yr eiddo sy'n dod o fewn yr haen honno, mewn modd tebyg i'r ffordd y codir treth incwm.



drafodiadau tir ac adeiladau). Dengys hyn ei bod yn bosibl defnyddio proses Bil Brys i wneud newidiadau yn gyflym. Er enghraifft, roedd llwybr Bil Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (Diwygio) (yr Alban) 2016 drwy Senedd yr Alban fel a ganlyn:

- Fe'i cyflwynwyd ar 28 Ionawr 2016,
- Cyfnod 1 ar 23 Chwefror,
- Cyfnod 2 ar 2 Mawrth,
- Cyfnod 3, a phasio'r Bil ar 8 Mawrth,
- Cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mawrth gan alluogi Cyllid yr Alban i ddechrau casglu treth atodol anheddau ychwanegol o 1 Ebrill, sef yr un dyddiad y dechreuodd CThEM gasglu'r cyfraddau uwch ar gyfer elfen anheddau ychwanegol treth dir y dreth stamp.

2.19 Yng Nghymru, fel yn achos Biliau eraill a gyflwynir i'r Senedd, cyn y gellir ei gyflwyno, bydd angen i Fil Llywodraeth Brys gael ei ystyried gan y Llywydd fel y caiff wneud datganiad o dan Reol Sefydlog 26.4; fodd bynnag, bydd cyfnod penderfyniad y Llywydd yn debygol o fod yn llawer llai na'r pedair wythnos arferol<sup>16</sup>.

2.20 Yn yr un modd, ar ôl i'r Senedd basio Bil yng Nghyfnod 4, mae'n mynd i mewn i'r cyfnod hysbysu pan all y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r Bil at y Goruchaf Lys<sup>17</sup>. Byddai atgyfeiriad o'r fath yn cael ei wneud er mwyn cael dyfarniad ar b'un a yw'r Bil neu unrhyw un o'i ddarpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'r tu allan iddo. Mae'r cyfnod hysbysu hwn hefyd yn rhoi pŵer i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ymyrryd<sup>18</sup>, o dan amgylchiadau eithriadol a nodwyd, er mwyn atal Bil rhag cael Cydsyniad Brenhinol.

2.21 Mae cyfuniad o gonfensiwn a'r gofyniad statudol i Aelodau'r Senedd adolygu'r Bil a chraffu arno'n briodol yn gallu ychwanegu tua 8 wythnos (er bod y cyfnod yn debygol o gael ei fyrhau drwy gytundeb) at hynt wirioneddol Bil Brys neu garlam drwy'r Senedd. Gallai hyn ychwanegu at yr amser a gymer i'r Bil ddod yn Ddeddf ac i effaith y newidiadau polisi a roddir ar waith gan y Ddeddf honno fod yn gymwys i drethdalwyr Cymreig.

2.22 Er y gallai fod yn bosibl, o dan amgylchiadau penodol, i ddod â'r newidiadau hyn i effaith yn gynharach drwy wneud y darpariaethau yn ôl-weithredol er mwyn sicrhau y deuant i rym ar yr un pryd â'r darpariaethau cyfatebol yn neddfwriaeth y DU, mae nifer o broblemau, a allai fod yn sylweddol, yn gysylltiedig â dull gweithredu o'r fath. Mae'n rhaid ystyried deddfwriaeth ôl-weithredol yn ofalus er mwyn cydbwysu'r buddiannau cyhoeddus croes, gan roi sylw i rwymedigaethau cyfreithiol cyffredinol, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At hynny, gan mai dim ond ar ôl iddynt gael Cydsyniad

---

<sup>16</sup> Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Senedd, Mai 2019, tudalen 189:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/llawlyfr-deddfwriaeth-ar-filiau-r-cynulliad.pdf>

<sup>17</sup> Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

<sup>18</sup> Adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

Brenhinol y gellir cymhwysu'r darpariaethau ôl-weithredol, mae dull gweithredu o'r fath yn annhebygol o roi sicrwydd i drethdalwyr a gallai hyn, yn ei dro, beri problemau o ran cydymffurfiaeth, a chostau, i drethdalwyr ac ACC.

2.23 Mae angen defnyddio Biliau Brys a charlam o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn ddymunol am ei bod yn golygu bod llai o amser i graffu ar filiau. Ystyrir y ffaith nad oes digon o amser i graffu'n fanwl ar filiau yn yr adroddiad 'Deddfu yng Nghymru' gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn y 4edd Senedd<sup>19</sup>. Ystyriodd yr ymchwiliad y broses graffu fyrrach a gynhaliwyd ar dri o Filiau Llywodraeth Cymru:

- Y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) – yn ddarostyngedig i'r weithdrefn frys o dan y Rheolau Sefydlog
- Y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) – a gafodd osgoi Cyfnod 1 y broses graffu;
- Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) – a gafodd osgoi Cyfnod 1 y broses graffu.

2.24 Nododd yr ymchwiliad fod anfanteision posibl yn gysylltiedig â gweithdrefnau brys a rhoi deddfwriaeth ar y llwybr carlam. Mae hyn yn cynnwys colli cyfle i randdeiliaid nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â hwy roi tystiolaeth ffurfiol i'r Senedd ynghylch y cynigion ac, yn ogystal, mewn sefyllfaoedd lle mae cytundeb cyffredinol bod angen mynd i'r afael â mater, colli cyfle i brofi gyda'r holl randdeiliaid ai drafftio'r Bil yw'r ateb gorau posibl. Nododd yr adroddiad hefyd y gall Aelodau'r Senedd fod yn anghyfarwydd â chynnwys Bil, a allai arwain at lai o graffu deallus yng Nghyfnodau 2 a 3.

2.25 Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad nad rhywbeth i'w gymryd yn ysgafn yw penderfyniad i fabwysiadu proses graffu fyrrach a chytunodd â'r Llywydd, a ddywedodd:

"Mae'n bwysig bod y risgiau i enw da a goblygiadau o ran adnoddau o ran defnyddio gweithdrefnau carlam a gweithdrefnau brys, yn cael eu hystyried yn llawn, yn enwedig os canfyddir yn ddiweddarach bod y rhain yn amhriodol."

2.26 Yn olaf, efallai y bydd yr amserlenni byrrach ynghyd â gofynion Bil Brys neu Fil 'carlam' yn gofyn am neilltuo cryn dipyn o adnoddau gan Lywodraeth Cymru, er y byddai hynny am gyfnod byr, a gallai hyn effeithio ar fusnes arall Llywodraeth Cymru (ac efallai peri oedi iddo hyd yn oed).

2.27 Gall rhoi deddfwriaeth ar y llwybr carlam roi cryn bwysau ar dimau Biliau, a galwadau sylweddol ar ddrafftwy'r a chyfieithwyr, a'r rhai sy'n gweithio ochr yn ochr â thimau Biliau. Bydd angen asesu'r effaith ar dîm y Bil, ac ar Filiau eraill o fewn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, wrth ystyried p'un ai'r dull hwn o weithredu yw'r un cywir ym mhob un o'r amgylchiadau.

---

<sup>19</sup> Deddfu yng Nghymru, adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn y 4<sup>edd</sup> Senedd: <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld10379/cr-ld10379-w.pdf>

### **Cwestiwn 1**

*Yn eich barn chi, a yw Biliau Brys neu 'garlam' yn brosesau deddfwriaethol priodol i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ar unwaith neu'n gyflym iawn?*

### **Cwestiwn 2**

*A allwch awgrymu unrhyw newidiadau i broses y Bil Brys neu 'garlam' i'w gwneud yn fwy addas i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ar unwaith neu'n gyflym iawn?*

### ***Is-ddeddfwriaeth***

- 2.28 Gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio nifer o bwerau gwneud rheoliadau i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru fel y nodir yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Mae'r rheoliadau wedi'u cyfyngu i feysydd penodol o Ddeddfau Trethi Cymru a chreffir arnynt ac, yn y rhan fwyaf o achosion, pleidleisir arnynt yn y Senedd ar ôl i'r rheoliadau gael eu gosod ger ei bron ar ffurf ddrafft (y weithdrefn 'gadarnhaol ddrafft'). Yn rhannol, roedd cymryd y pwerau hyn i wneud rheoliadau yn gysylltiedig â meysydd lle y gallai newid i reolau'r DU effeithio ar drethi datganoledig yng Nghymru, neu lle roedd yn hysbys bod fersiwn y DU o'r dreth yn arbennig o 'fyw', lle roedd yn newydd, neu lle roedd pwysau hirsefydledig dros newid.
- 2.29 Er enghraifft, gall Gweinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd) drwy reoliadau cadarnhaol i wneud unrhyw newidiadau i'r rheolau partneriaeth ar gyfer y dreth trafodiadau tir. Ar hyn o bryd, dim ond pedair set o reoliadau sydd wedi cael eu gwneud mewn perthynas â threthi datganoledig ers i'r trethi fynd yn fyw ym mis Ebrill 2018. Roedd y cyfan mewn perthynas â'r dreth gwarediadau tirlenwi; dwy set i wella materion gweithredol a nodwyd gyda'r trethi sy'n berthnasol i ryddhad adfer safle a rhyddhad chwareli, a dwy set i gyflwyno newidiadau i'r cyfraddau sy'n daladwy. Hyd yma, mae cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi ar gyfer y cyfraddau is, safonol ac ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi wedi cael eu hamrywio bob blwyddyn drwy reoliadau yn defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol dros dro.
- 2.30 Fodd bynnag, ceir rhannau o'r deddfwriaeth lle nad ystyriwyd ei bod yn briodol nac yn angenrheidiol cymryd pwerau gwneud rheoliadau; er enghraifft, yn achos y dreth trafodiadau tir, y darpariaethau sy'n ymwneud â thrafodiadau cysylltiedig a chyflawni'n sylweddol. Un maes allweddol yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyfrifo treth: er enghraifft, mae'n annhebygol pe byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno gordal newydd (yn debyg i'r rheolau ynglŷn â chodi cyfraddau sydd 3 y cant yn uwch ar eiddo preswyl ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn Natganiad yr Hydref 2015 ac y deddfwyd ar eu cyfer yn

Neddf Cyllid 2016 – gweler Pennod 4, enghraifft 4) y gallai hyn gael ei gyflawni'n llawn drwy'r gyfres bresennol o bwerau gwneud rheoliadau.

2.31 Rhagwelwyd y byddai angen gwneud newidiadau i'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer trethi datganoledig Cymru yn ôl pob tebyg ac arweiniodd hyn at gyflwyno pwerau pwrpasol sy'n ei gwneud yn bosibl cyflwyno'r newidiadau hynny drwy reoliadau. Gan gofio am y risg benodol o ragflaenu sy'n gysylltiedig ag amrywiadau mewn cyfraddau a bandiau, mae rheoliadau a wneir o dan y pwerau hynny yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol dros dro. Mae hyn yn golygu y gall newidiadau i gyfraddau a bandiau treth, a wneir o dan bwerau gwneud rheoliadau, gael effaith gyfreithiol dros dro, ond ar unwaith, o'r dyddiad y gwneir y rheoliadau. Ar yr amod y caiff y rheoliadau eu cymeradwyo wedyn gan y Senedd o fewn 28 diwrnod eistedd, bydd y rheoliadau yn cael effaith barhaol. Mae'r defnydd o'r weithdrefn gadarnhaol dros dro yn ymwneud yn benodol â'r pŵer i amrywio cyfraddau a bandiau treth – mae gweddill y gyfres o bwerau gwneud rheoliadau yn Neddfau Trethi Cymru yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau cadarnhaol neu negyddol drafft.

## **Llywodraeth y DU**

### **Bil Cyllid**

2.32 Y Bil Cyllid yw'r prif gyfrwng deddfwriaethol i ddeddfwriaeth treth gael ei deddfu gan Lywodraeth y DU<sup>20</sup>. Ni all y Bil ond cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gosod a newid trethi er mwyn codi arian i gyllido llywodraeth ganolog yn gyffredinol. Proses flynyddol ydyw, yn rhannol am fod treth incwm a threth gorfforaeth yn drethi blynyddol y mae'n rhaid eu hadnewyddu drwy ddeddfwriaeth bob blwyddyn, ond hefyd er mwyn cydnabod maint a rheoleidd-dra'r newid sydd angen ei wneud i drethi'r DU.

2.33 Bydd y Bil Cyllid yn cynnwys mesurau y bwriedir iddynt ddod i rym ar y dyddiad y caiff Gydsyniad Brenhinol neu'n ddiweddarach, neu sydd wedi cael eu rhoi ar waith dros dro ar unwaith drwy gynnig ffyrdd a moddau a wnaed o dan y pwerau yn Neddf Casglu Trethi Dros Dro 1968. Mae'n werth nodi bod y Bil Cyllid yn annodweddiadol o brosesau deddfwriaethol Llywodraeth y DU mewn sawl ffordd. Fel arfer, mae'r Bil Cyllid yn cymryd tua 4 mis i fynd drwy Senedd y DU. Mae'r amserlen hon yn eithaf byr o gymharu â'r rhan fwyaf o'r Biliau a gaiff eu pasio gan Senedd y DU ac, o ganlyniad i hyn, anaml iawn y caiff sesiynau tystiolaeth eu defnyddio gan y pwyllgorau perthnasol, os o gwbl. Yn ôl y confensiwn, ni chyflwynir gwelliannau i Ffiliau Cyllid gan Dŷ'r Arglwyddi. Yn amlach, darperir tystiolaeth o effaith darpariaethau'r Bil Cyllid yn ysgrifenedig i adrannau perthnasol y llywodraeth ac aelodau Pwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

2.34 At hynny, mewn achosion o frys mawr, mae camau'r Bil Cyllid wedi'u cyflymu. Er enghraifft, ar 24 Ebrill 2017, cytunodd y Tŷ ar gynnig Busnes y Tŷ a olygodd ei

---

<sup>20</sup> <https://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/SN00813>

bod yn bosibl i'r Bil Cyllid gael ei gyflwyno i un o Bwyllgorau'r Tŷ cyfan a mynd drwy bob un o'r camau dilynol y diwrnod canlynol<sup>21</sup>.

### **Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968**

2.35 Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth y DU yn gwneud y rhan fwyaf o'i newidiadau i ddeddfwriaeth trethi drwy'r Bil Cyllid. Bydd y newidiadau hynny naill ai'n dod i rym rywbryd ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, neu, o dan amgylchiadau penodol, efallai y byddant eisoes wedi dod i rym dros dro drwy gyfres o benderfyniadau (a elwir yn "gynigion ffyrdd a moddau") a gymeradwywyd gan Dŷ'r Cyffredin o dan Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro 1968. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i gynigion ar gyfer newid trethi a pharhau â threthi, megis ailosod treth incwm bob blwyddyn, gael effaith gyfreithiol dros dro ar unwaith tra'n aros i'r ddeddfwriaeth sylfaenol angenrheidiol gael Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, ni ellir rhoi trethi newydd ar waith fel hyn. Bydd newidiadau yn cael effaith barhaol ar yr amod y cyrhaeddir camau Seneddol o fewn cyfnod penodol ar ôl i'r cynnig gael ei dderbyn. Mae hefyd yn bosibl cyflwyno newidiadau i ddeddfwriaeth trethi y tu allan i gylch cyllidebol gan ddefnyddio cynnig o dan Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro 1968, ond dim ond os cyhoeddwyd deddfwriaeth sylfaenol ddrafft i gyd-fynd â'r cynnig er mwyn rhoi'r newid ar waith yn barhaol.

2.36 Er enghraifft, yn achos Cyllideb 2016 ar 16 Mawrth, roedd y cynnig yn darparu i gyfraddau toll newydd ar gyfer cynhyrchion tybaco ddod i rym o 6pm y diwrnod hwnnw; roedd hefyd yn darparu i newidiadau i dreth dir y dreth stamp a oedd yn ymwneud â newid y gyfundrefn codi treth o system slab i system fesul haen (gweler Pennod 4, enghraifft 3) ar gyfer trafodiadau eiddo amhreswyl ddod i rym o 17 Mawrth, ac i gyfraddau toll newydd ar gyfer rhai categorïau o alcohol ddod i rym o 21 Mawrth<sup>22</sup>.

2.37 Nid oes unrhyw ddarpariaeth gyfatebol i Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 yng nghyfraith Cymru.

### **Adran 109(1) o Ddeddf Cyllid 2003**

2.38 Mae adran 109(1) o Ddeddf Cyllid 2003 yn rhoi pŵer cyffredinol i Drysorlys EM wneud rheoliadau er mwyn amrywio deddfwriaeth ynglŷn â threth dir y dreth stamp, ac eithrio cyfraddau a throthwyon:

“The Treasury may if they consider it expedient in the public interest make provision by regulations for the variation of this Part in its application to land transactions of any description”.

---

<sup>21</sup> Senedd y DU, Erskine May, “Intervals between stages of taxation legislation”: <https://erskinemay.parliament.uk/section/5706/intervals-between-stages-of-taxation-legislation/?highlight=finance%20Bill#footnote-item-7>

<sup>22</sup> Dadl yn Nhŷ'r Cyffredin 16 Mawrth 2016 c968. Trysorlys EM, Nodiadau ar gynigion Bil Cyllid 2016, Mawrth 2016

- 2.39 Gall rheoliadau o dan yr adran hon gael effaith ar unwaith, ond dros dro, ac felly maent yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol dros dro. Golyga hyn fod yn rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin o fewn 28 diwrnod eistedd ac na allant gael effaith am fwy na 18 mis, sy'n golygu bod y newidiadau yn aml yn cael eu hymgorffori yn y Bil Cyllid nesaf. Os na fydd Tŷ'r Cyffredin yn cymeradwyo'r rheoliadau o fewn 28 diwrnod eistedd, ni fydd y newidiadau yn cael effaith a gall trethdalwyr wneud cais i unrhyw dreth ychwanegol a dalwyd o ganlyniad i'r rheoliadau gael ei had-dalu iddynt.
- 2.40 Yn ymarferol, anaml y mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio'r pŵer hwn am fod y rhan fwyaf o newidiadau i dreth dir y dreth stamp yn cael eu gwneud drwy Ffiliau Cyllid. Cafwyd yr enghraifft fwyaf nodedig ym mis Rhagfyr 2006 pan gafodd ei ddefnyddio i ddiwygio Deddf Cyllid 2003 er mwyn mynd i'r afael â chynlluniau i osgoi talu treth dir y dreth stamp, drwy gyflwyno Adran 75A o Ddeddf Cyllid 2003. Fe'i defnyddiwyd ddwywaith hefyd yn 2003 mewn perthynas â chyflwyno treth dir y dreth stamp.
- 2.41 Nid oes unrhyw ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 gan nad oes Bil Cyllid Cymru blyneddol (neu lai cyson) ar waith i roi effaith parhaol i newidiadau o'r fath (gweler paragraffau 2.45 – 2.50).

### ***Prosesau craffu ar gyllidebau, trethi a chyllid yng Nghymru yn y dyfodol***

- 2.42 Mae Llywodraeth Cymru ar ddeall bod Pwyllgor Cyllid y Senedd yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar ei ymchwiliad i brosesau cyllidebol deddfwriaethol. Cydnabyddir y gall casgliadau'r adroddiad hwn fod yn berthnasol, ac y bydd angen ystyried hyn mewn unrhyw ymateb a roddir gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad.
- 2.43 Bydd y goblygiadau posibl i'r maes polisi hwn yn dibynnu ar ba opsiynau ar gyfer prosesau cyllidebol deddfwriaethol a argymhellir ac a all gael eu hystyried wedyn gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol. Er nad yw rhinweddau cyflwyno proses gyllidebol ddeddfwriaethol yng Nghymru o fewn cwrpas yr ymgynghoriad hwn, rhoddir amlinelliad bras o ddau opsiwn posibl ar gyfer prosesau cyllidebol deddfwriaethol sy'n cydgysylltu â threthi datganoledig yng Nghymru:
- Byddai '**Bil Cyllid**', i bob pwrpas, yn cynnwys mesurau codi refeniw a rhai penderfyniadau ynghylch pennu trethi, ond ni fyddai'n cynnwys cynlluniau gwariant. **Byddai** hyn yn darparu dull o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.
  - Gallai hefyd fod potensial ar gyfer un '**Bil Cyllideb a Chyllid**' sy'n cynnwys elfennau'r Bil cyllideb (gwariant), pe bai Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn cytuno y dylid cymeradwyo'r gyllideb drwy ddeddfwriaeth yn hytrach na chynnig a gyflwynwyd gan y Senedd, ac elfennau'r Bil cyllid (pennu cyfraddau a newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru). **Byddai** hyn yn darparu dull o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.

- 2.44 Mae'n bosibl y gallai'r Senedd fabwysiadu proses **Bil Cyllid** flynyddol (neu lai aml) er mwyn gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, er y byddai rhai anawsterau y byddai angen eu datrys. Yn debyg i **Fil Cyllid** Llywodraeth y DU (gweler paragraffau 2.32-2.34) mae'n debygol y bydd hyn yn gofyn am weithdrefn ychydig yn wahanol.
- 2.45 Byddai angen cysoni Bil Cyllid â phroses Cyllideb Cymru am ei bod yn bosibl y bydd y Bil yn newid faint o adnoddau sydd ar gael yn y gyllideb honno. Fel arfer, mae proses Cyllideb Cymru yn cychwyn ar ddechrau mis Hydref. Pe bai newidiadau i drethi Llywodraeth Cymru yn yr arfaeth, yna byddai angen cyflwyno Bil Cyllid ar yr un pryd â Chyllideb Cymru. Mae'n rhaid cytuno ar Gyllideb Cymru erbyn dechrau mis Mawrth a byddai angen cytuno ar y Bil Cyllid ar yr adeg hon hefyd oherwydd y cyswllt uniongyrchol sydd rhyngddo â'r gyllideb. Felly, byddai hyn yn gofyn am broses deddfwriaeth sylfaenol newydd er mwyn i'r darpar Fil Cyllid allu cael Cydsyniad Brenhinol o fewn tua 4 mis (gweler paragraff 2.2 ar yr amserlenni arferol ar gyfer datblygu a phasio deddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru).
- 2.46 At hynny, mae'n debygol y bydd anawsterau wrth geisio cynnal Cyllideb y DU a phrosesau cyllidebol Llywodraeth Cymru ar yr un pryd. Er mai'r bwriad, yn gyffredinol, yw y cynhelir Cyllideb y DU ar ddiwedd yr hydref, nid yw'r dyddiad hwnnw'n sefydlog. Fel arfer, bydd amseriad Cyllideb y DU a chyflwyno Deddf Cyllid y DU 7 diwrnod yn ddiweddarach yn golygu ei bod yn ddigon posibl y bydd Bil Cyllid Cymru wedi mynd heibio i Gam 1, ac efallai Gam 2, cyn y bydd y gwelliannau mewn ymateb i newidiadau'r DU yn barod i'w cyflwyno. At hynny, mewn blynyddoedd pryd y cynhelir etholiad cyffredinol, nid yw'n anghyffredin i gyllideb ychwanegol gael ei llunio wedyn ar gyfer y DU a all gyflwyno newid sy'n cael cryn effaith ar refeniw o dreth dir y dreth stamp. Mae'n ddigon posibl y bydd hyn yn digwydd y tu allan i amserlenni proses Cyllideb Cymru, a fydd yn arwain at oedi cyn i Lywodraeth Cymru allu ymateb, oni fydd yn gwneud hynny drwy Fil Brys. Byddai addasiadau canlyniadol yn cael eu darparu wedi hynny drwy broses y gyllideb atodol er y byddai Bil Cyllid Cymru hefyd yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn. Nid yw'n ddymunol bod mewn sefyllfa lle na chynhelir prosesau craffu addas ar gyfer cynigion Llywodraeth Cymru, neu lle mae angen (yn anfynych iawn) cael Bil Brys a Bil Cyllid Cymru yn yr un flwyddyn.
- 2.47 At hynny, pe byddai angen i newid ddod i rym ar unwaith o ddyddiad y cyhoeddiad ynghylch polisi (er enghraifft, er mwyn cysoni â newidiadau cyfatebol yng nghyfraith drethi y DU), gan na cheir Bil i ddarparu i Lywodraeth Cymru a'r Senedd bwerau tebyg i Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro 1968, byddai angen cyflwyno'r Bil Cyllid yn rhoi effaith i'r newid hwnnw i gael effaith ôl-weithredol.
- 2.48 O gofio'r cysylltiad rhwng yr ymdrech dreth a wneir gan drethi rhagflaenol y DU a'u heffeithiau ar adnoddau Llywodraeth Cymru, mae'r gallu i ymateb yn gyflym, yn hyblyg a'r tu allan i broses Cyllideb Cymru yn hanfodol. Fel arall, gallai hyn gael effeithiau negyddol ar adnoddau Llywodraeth Cymru, busnesau, y farchnad eiddo neu'r amgylchedd.

- 2.49 At hynny, mewn perthynas â chyflwyno Bil Cyllid, mae a wnelo ystyriaeth allweddol o ran Deddfau Trethi Cymru yn benodol â faint o is-ddeddfwriaeth a gynhrychir gan y Deddfau hyn ac a yw'n fwy ymarferol cydgrynhoi'r deddfwriaeth honno mewn Bil blynyddol. Ar hyn o bryd, dim ond pedair set o reoliadau mewn perthynas â threthi datganoledig sydd wedi'u gwneud ers i'r trethi fynd yn fyw ym mis Ebrill 2018 ac roedd pob un ohonynt yn ymwneud â'r dreth gwarediadau tirlenwi (gweler paragraff 2.29).
- 2.50 Gallai hefyd fod potensial ar gyfer **un Bil** sy'n cynnwys pennu'r gyllideb a'r cyfraddau ac sy'n darparu ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Fodd bynnag, dull gweithredu anarferol iawn fyddai hyn a byddai nifer o risgiau yn gysylltiedig ag ef. Er enghraifft, byddai angen cymeradwyo'r gyllideb sawl gwaith (yn ystod y flwyddyn) oherwydd nifer yr addasiadau i'r grant bloc, a byddai materion yn codi mewn perthynas â chymhwysedd deddfwriaethol a'r dylanwad a gaiff codi refeniw a gwariant refeniw ar ei gilydd.

### **Cwestiwn 3**

*Er nad yw Llywodraeth Cymru o'r farn ar hyn o bryd fod Bil Cyllid Cymru blynyddol yn ddull cymesur o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, hoffem gael eich barn ar y potensial i gyflwyno Bil o'r fath yn y dyfodol. A yw hwn yn opsiwn priodol? Pryd y dylid ei gyflwyno? Sut y gallai weithio? Sut y dylai gysylltu â phroses Cyllideb Cymru?*

## ***Llywodraeth yr Alban***

### **Gweithgor Deddfwriaeth Trethi Datganoledig**

- 2.51 Yn yr Alban, ceisiodd y Gweithgor Deddfwriaeth Trethi Datganoledig farn ar ei adroddiad interim<sup>23</sup> sy'n nodi'r heriau a'r cyfleoedd a ddeuai yn sgil opsiynau eraill ar gyfer deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â threthi datganoledig yn yr Alban. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau oedd 27 Mawrth ac mae Senedd yr Alban wedi cyhoeddi ymatebion ar-lein, er iddi nodi bod y gwaith hwn wedi'i atal dros dro. Mae'r adroddiad yn awgrymu, pe câi ei ddatblygu, y byddai Bil Cyllid yn yr Alban yn seiliedig i raddau helaeth ar Gyllideb yr Alban, sydd wedi cael ei phennu erioed drwy broses gyllidebol deddfwriaethol, fel sy'n ofynnol o gan Ddeddf yr Alban 1998. Ar y llaw arall, yng Nghymru, ers datganoli, mae'r gyllideb wedi'i chymeradwyo drwy gynnig cyllidebol. Felly, mae'r ystyriaethau yn yr Alban mewn perthynas â Bil Cyllid yn wahanol i'r ystyriaethau yng Nghymru am fod digwyddiad cyllidebol blynyddol sy'n cynnwys deddfwriaeth sylfaenol eisoes.
- 2.52 Rhan allweddol o ystyriaeth y Gweithgor oedd a oes gan Senedd yr Alban a'i Phwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad yr adnoddau i ystyried Bil arall yn ystod cyfnod y gyllideb (lle maent eisoes yn ystyried Bil y Gyllideb). At hynny, gan y byddai Bil Cyllid yn dilyn amserlen fyrrach o lawer na Biliau eraill y Llywodraeth, byddai llai o amser ar gael i Aelodau Senedd yr Alban ystyried y Bil ac adrodd arno.

<sup>23</sup> <https://www.parliament.scot/parliamentarybusiness/CurrentCommittees/114453.aspx>



2.53 Hefyd, trafododd y Gweithgor rinweddau Bil Treth yn yr Alban. Y prif wahaniaeth rhwng Bil Treth a Bil Cyllid yw na fyddai'r cyntaf yn cynnwys newidiadau i gyfraddau na bandiau trethi<sup>24</sup> (er y gall y newidiadau hynny newid faint o dreth a gesglir, oni chyfyngir ar y newidiadau i faterion gweinyddol). Yn hyn o beth, ni fyddai Bil Treth o reidrwydd yn seiliedig ar Gyllideb yr Alban ac, felly, gellid ei gyflwyno rywbryd arall yn ystod y flwyddyn, neu'n llai aml fel y bo'n briodol.

2.54 Yn olaf, mae'n werth nodi bod prosesau tebyg i Fil Cyllid yn cael eu defnyddio mewn awdurdodaethau eraill, megis Gweriniaeth Iwerddon. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ystyried unrhyw brosesau o'r fath.

#### **Cwestiwn 4**

*A ydych chi'n cytuno bod angen y trefniadau hyn, sy'n mynd ymhellach na'r rheini sydd ar gael eisoes, er mwyn ei gwneud yn bosibl cyflwyno diwygiadau i Ddeddfau Trethi Cymru yn brydlon mewn amgylchiadau penodol?*

#### **Cwestiwn 5**

*A ydych yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o brosesau newid deddfwriaeth trethi yn rhyngwladol y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru eu hystyried?*

---

<sup>24</sup> Byddai pwerau is-ddeddfwriaethol sy'n bodoli eisoes yn parhau i gael eu defnyddio i bennu cyfraddau a bandiau.

## **Pennod 3 – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru**

### **Trosolwg o'r cynnig deddfwriaethol**

- 3.1 Rhoi pwerau hyblyg a chymesur i Weinidogion Cymru wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, yn amodol ar graffu priodol gan y Senedd, yw cynnig Llywodraeth Cymru. Mae sawl senario lle y gall fod angen gwneud newidiadau ar unwaith, neu'n gyflym iawn, i Ddeddfau Trethi Cymru:
- i. er mwyn atal achosion o osgoi neu efadu'r trethi datganoledig,
  - ii. er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol,
  - iii. amgylchiadau eraill lle mae angen eithriadol i'w newid,
  - iv. mewn amgylchiadau penodol pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny. Yn benodol, fel ymateb i newidiadau i bolisi trethi a wneir gan Lywodraeth y DU i drethi rhagflaenol y DU a fydd yn effeithio ar yr addasiad i grant bloc Cymru ac, felly, y referniw sydd ar gael ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.
- 3.2 Efallai y bydd Awdurdod Cyllid Cymru a Llywodraeth Cymru yn dod yn ymwybodol o weithgarwch osgoi neu efadu y gellir ei atal ar unwaith drwy newidiadau deddfwriaethol. Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae Awdurdod Cyllid Cymru a Llywodraeth Cymru yn credu nad yw'r deddfwriaeth heb ei diwygio yn caniatáu'r gweithgarwch osgoi sut bynnag ond y bydd mwy o eglurder yn y deddfwriaeth yn dangos y tu hwnt i amheuaeth sut y bwriedir i'r ddarpariaeth deddfwriaethol gael ei chymhwyso.
- 3.3 Gall fod adegau hefyd pan fydd angen diwygio Deddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU, megis pan gaiff cytundeb masnach newydd ei lunio â gwlad arall y mae iddo oblygiadau o ran treth. Ni ellir gosod trethi datganoledig “...*where to do so would be incompatible with any international obligations*”<sup>25</sup>. Mae'n bwysig bod Deddfau Trethi Cymru yn gallu cael eu diwygio'n gyflym iawn os ceir eu bod yn anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. Wrth i Lywodraeth y DU lunio cytundebau masnach newydd ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), mae'n bosibl y bydd sefyllfaoedd lle y bydd angen diwygio Deddfau Trethi Cymru er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae treth trafodiadau tir yn rhoi rhyddhad i elusennau'r UE a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) sy'n bodloni'r amodau i gael y rhyddhad. Os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb masnachu ar gyfer y dyfodol, ni fydd y rhyddhad hwnnw ar gael mwyach i'r elusennau hynny yn yr UE na'r AEE. Gall hyn fod yn rhywbeth y byddai Gweinidogion Cymru am roi sylw iddo.
- 3.4 Ar adegau hefyd, bydd angen gwneud newidiadau yn gyflym i Ddeddfau Trethi Cymru o ganlyniad i ryw fater eithriadol na ellir ei ragweld ar hyn o bryd. Er enghraifft, gallai llys neu dribiwnlys nodi mater sy'n gofyn am newid

---

<sup>25</sup> Adran 116A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

deddfwriaethol (gan gynnwys penderfyniadau sy'n ymwneud â threthi rhagflaenol y DU) er mwyn rhoi eglurder neu sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol eraill.

3.5 Mae hefyd yn bosibl y bydd angen gwneud newidiadau o ganlyniad i'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi gwneud newidiadau i drethi rhagflaenol sy'n effeithio ar yr addasiad i'r grant bloc (gweler paragraff 1.9). Felly, fe'i hystyrir yn briodol y dylai deddfwriaeth ddarparu ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, ar gyfer sefyllfaoedd lle mae angen y newidiadau hynny ac maent er budd pennaf Cymru a dinasyddion Cymru.

3.6 Mae Pennod 2 yn nodi'r sefyllfaoedd mwyaf dybryd lle y gwneir newidiadau i drethi rhagflaenol y DU ar unwaith yn un o Gyllidebau'r DU ac y gallai'r newidiadau hynny gael effaith berthnasol a negyddol ar adnoddau cyffredinol Llywodraeth Cymru.

### ***Dull deddfwriaethol o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru***

3.7 Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod unrhyw opsiwn a ddatblygir yn hyblyg a'i fod yn cydbwysu'r angen iddi fod mewn sefyllfa i ymateb yn gyflym (yn enwedig pan fo canlyniadau i'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru) â gwaith hanfodol y Senedd, a phartïon eraill â diddordeb, wrth graffu ar y llywodraeth a'i chynigion deddfwriaethol.

3.8 Cynnig Llywodraeth Cymru yw cyflwyno pwerau newydd er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio Deddfau Trethi Cymru drwy reoliadau. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi tri phŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru er mwyn eu galluogi, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru:

- **'Pŵer 1'** – newidiadau arfaethedig i gael effaith gyfreithiol ar unwaith, ond dros dro, gyda'u heffaith barhaol yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd yn dilyn cyfnod craffu safonol ar gyfer rheoliadau cadarnhaol dros dro (cyfnod nad yw'n hwy na 28 diwrnod ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud).
- **'Pŵer 2'** – newidiadau arfaethedig i gael effaith gyfreithiol ar unwaith, ond dros dro, gyda'u heffaith barhaol yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd yn dilyn cyfnod craffu estynedig i ganiatáu i sesiynau tystiolaeth gael eu cynnal (gweithdrefn 'uwchgadarnhaol' dros dro). Byddai'r pŵer hwn hefyd yn amodol ar gynnig yn y Senedd neu 'glo' cyn y gellid ei ddefnyddio.
- **'Pŵer 3'** – pŵer i wneud rheoliadau cadarnhaol er mwyn diwygio'r rheolau a grëwyd drwy ddefnyddio pŵer 1 neu bŵer 2.

3.9 Nodwedd allweddol pwerau 1 a 2 yw y gellir rhoi'r newidiadau ar waith ar unwaith. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gael yr un pŵer â Llywodraeth y DU i wneud newidiadau ar unwaith i drethi datganoledig, gan leihau hyd yr eithaf unrhyw effaith ar yr addasiad i'r grant bloc. Mae hyn hefyd yn sicrhau y gall trethdalwyr gael budd o'r newidiadau hynny cyn gynted â phosibl, gan leihau'r risg o ragflaenu neu ansicrwydd.

3.10 Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid defnyddio pwerau 1-3 i wneud newidiadau rheolaidd i bolisi mewn perthynas â'r trethi datganoledig sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru (gweler paragraffau 3.30-3.32).

### **Cwestiwn 6**

*Yn eich barn chi, a yw'r egwyddor o ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau yn briodol er mwyn rhoi'r newidiadau hynny ar waith (o gymharu â defnyddio deddfwriaeth sylfaenol neu ryw ddull arall megis proses Deddf Casglu Trethi Dros Dro Llywodraeth y DU)?*

### **Cwestiwn 7**

*A oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â defnyddio pwerau gwneud rheoliadau i roi effaith i'r newidiadau hyn? Disgrifiwch hwy gan roi enghreifftiau os yw'n bosibl.*

### ***Pŵer 1: rheoliadau a wneir yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol***

3.11 Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y câi cwmpas pŵer 1 ei ddiffinio er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn gwneud diwygiadau ar frys i Ddeddfau Trethi Cymru, y gallai fod eu hangen mewn ymateb i'r canlynol:

- gweithgarwch osgoi neu efadu trethi,
- yr angen i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, neu,
- y fath amgylchiadau eraill lle mae'n angenrheidiol ac yn briodol mynd i'r afael ag achosion lle mae angen eithriadol, er enghraifft mewn ymateb i benderfyniad tribiwnlys neu lysoedd uwch.

3.12 Felly, disgwylir i bŵer 1 fynd i'r afael ag agweddau cymharol fach ar Ddeddfau Trethi Cymru a fyddai'n effeithio ar nifer bach o drethdalwyr yn unig. Felly, fe'i hystyrir yn briodol, yn yr achosion hyn, y byddai'r rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol dros dro, a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i'r newidiadau gael effaith dros dro, ond ar unwaith. Er mwyn i'r newidiadau a wneir gan y rheoliadau gael effaith gyfreithiol barhaol, byddai angen iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd o fewn cyfnod penodol o amser. Ystyrir bod cyfnod o 28 diwrnod eistedd<sup>26</sup> ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn briodol ac mae'n gyson â'r cyfnod o amser a ddefnyddir mewn perthynas â phwerau eraill sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol dros dro<sup>27</sup>.

<sup>26</sup> Diwrnodau eistedd yw'r diwrnodau hynny pan nad yw'r Senedd wedi torri am 4 diwrnod neu fwy.

<sup>27</sup> Gweler, er enghraifft, adran 24 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a phwerau penodol o dan Ran 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

3.13 Os caiff y rheoliadau eu cymeradwyo gan y Senedd, yna bydd y newidiadau a wneir yn cael effaith barhaol, fel sy'n digwydd yn achos rheoliadau sy'n newid cyfraddau a bandiau'r trethi datganoledig. Ar y llaw arall, os na chaiff y rheoliadau eu cymeradwyo o fewn y cyfnod hwnnw, byddai gan y trethdalwyr yr hawl i gael unrhyw dreth ychwanegol a dalwyd o ganlyniad i'r rheoliadau yn ôl.

3.14 Mae enghreifftiau 1 a 2 ym Mhennod 4 yn nodi sut y gellir defnyddio rheoliadau a wneir o dan y broses hon. Pan ddefnyddir y pŵer i ddiwygio Deddfau Trethi Cymru er mwyn mynd i'r afael â gweithgarwch osgoi neu efadu trethi, bydd gwneud y rheoliadau hynny yn gyflym ar ôl i'r gweithgarwch osgoi neu efadu trethi gael ei nodi yn diogelu'r sylfaen drethu. At hynny, bydd gwneud newid deddfwriaethol yn rhoi sicrwydd cynnar i drethdalwyr a'u cynghorwyr. Ystyrir bod y sefyllfa hon yn amlwg well na sefyllfa lle y gall un o weinidogion y DU gyhoeddi newidiadau y bwriedir eu gwneud mewn Bil Cyllid yn y dyfodol ac yn cyhoeddi'r ddeddfwriaeth ddrafft a gaiff ei chynnwys yn y Bil hwnnw yn y dyfodol ag effaith ôl-weithredol yn dechrau ar ddyddiad y cyhoeddiad.

### **Cwestiwn 8**

*A ydych yn cytuno mai dim ond i newidiadau sydd eu hangen er mwyn ymateb i weithgarwch osgoi neu efadu trethi, cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol neu fynd i'r afael ag achosion lle mae angen eithriadol y dylai pŵer 1 fod yn gymwys? Os nad ydych, o dan ba amgylchiadau y dylai fod yn gymwys ac i ba sefyllfaoedd ychwanegol y dylai fod yn gymwys?*

### **Cwestiwn 9**

*A ydych yn cytuno **na** ddylai fod angen cynnig gan y Senedd ar gyfer pŵer 2 er mwyn i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol dros dro o dan bŵer 2?*

### ***Pŵer 2: rheoliadau a wneir yn ddarostyngedig i'r weithdrefn 'uwchgadarnhaol' dros dro***

3.15 Byddai pŵer 2 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn diwygio Deddfau Trethi Cymru mewn amgylchiadau penodol os byddant o'r farn bod gwneud hynny er budd pennaf y cyhoedd. Yn benodol, byddai hyn mewn ymateb i newidiadau i bolisi trethi a wnaed gan Lywodraeth y DU sy'n cael effaith sylweddol ar adnoddau cyffredinol Llywodraeth Cymru drwy newidiadau i'r addasiad i'r grant bloc.

3.16 Fel gyda phŵer 1, byddai rheoliadau a wneid o dan y pŵer hwn yn cael effaith ar unwaith ond dros dro, gyda'u heffaith gyfreithiol barhaol yn dibynnu ar y rheoliadau yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd.

- 3.17 Er mwyn sicrhau mai dim pan fydd hynny er budd y cyhoedd y defnyddir y pŵer, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai'r Senedd osod 'clo' ar y pŵer hwnnw. Byddai hyn yn golygu, i bob pwrpas, mai dim ond os bydd y Senedd yn cytuno bod yr amgylchiadau sy'n arwain at y newid yn golygu bod angen i'r newidiadau ddod i rym ar unwaith y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer. Byddai'r Senedd yn dangos ei bod yn cytuno drwy gynnig a fyddai, pe câi ei gymeradwyo, yn 'datgloi'r' pŵer er mwyn i Weinidogion Cymru ei arfer wedyn. Mae'r dull hwn o weithredu yn seiliedig yn fras ar broses y Bil Brys, a byddai'n gofyn am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru yn esbonio pam y dylai'r rheoliadau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn hon, a chostau amcangyfrifedig a chanlyniadau eraill peidio â gwneud y rheoliadau.
- 3.18 Yn ogystal â sicrhau mai dim ond mewn achosion priodol y defnyddir y pŵer, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai rheoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer hwn effeithio ar fwy o drethdalwyr Cymreig ac, felly, mae'n awyddus i sicrhau bod digon o gyfle i bwyllgorau perthnasol y Senedd a rhanddeiliaid eraill â diddordeb graffu ar y newidiadau cyn iddynt gael effaith barhaol.
- 3.19 Felly, yn hytrach na bod y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r rheolau cymeradwyo 28 diwrnod fel ar gyfer rheoliadau fel sy'n wir yn achos pŵer 1, cynigir y byddant yn ddarostyngedig i gyfnod craffu hwy: gweithdrefn 'uwchgadarnhaol' dros dro. Byddai hyn yn sicrhau bod cyfnod craffu digonol sy'n gymesur â natur y newid sy'n cael ei wneud. Gallai hyn, er enghraifft, alluogi'r pwyllgorau perthnasol i gymryd tystiolaeth ac ysgrifennu eu priod adroddiadau, ac i rhanddeiliaid gyflwyno sylwadau ar y newidiadau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen i hyd y cyfnod estynedig o ddiwrnodau eistedd sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng yr awydd i sicrhau prosesau craffu da a sicrhau bod sicrwydd deddfwriaethol yn cael ei roi i'r newidiadau a geir yn y rheoliadau.
- 3.20 Cydnabyddir y gallai fod sawl math o newidiadau. Mae'r ffaith bod cyfnod hwy lle mae'n rhaid i'r rheoliadau gael eu cymeradwyo yn galluogi'r Senedd i bennu'r cyfnod craffu yn gymesur â natur y newidiadau.
- 3.21 Mae a wnelo un o fanteision ychwanegol y dull hwn o weithredu â hygyrchedd y newidiadau deddfwriaethol. Fel y nodwyd yn 2.33, mae Llywodraeth y DU yn rhoi ei newidiadau ar waith ar unwaith yn bennaf drwy gynigion ffyrdd a moddau. Er bod disgrifiad o'r newidiadau hyn i'w gael, fel arfer, yn 'Llyfr Coch' Trysorlys y DU a gwefannau Trysorlys EM a CThEM, fel rheol yn Hansard y ceir yr unig gofnod o'r newidiadau sy'n cael eu cymeradwyo gan y Senedd. O ganlyniad, nid oes unrhyw gofnod o'r cynigion ffyrdd a moddau ar [legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk) na thrwy'r cronfeydd data cyfreithiol masnachol megis Westlaw neu LexisNexis. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y gallu i weld newidiadau deddfwriaethol yn gyflym ac yn hawdd yn agwedd sylfaenol ar Reolaeth y Gyfraith a, thrwy wneud newidiadau drwy reoliadau, y gall aelodau o'r cyhoedd ac ymarferwyr ddod o hyd i'r newidiadau hynny yn [ddidrafferth ar legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk) a'r cronfeydd data masnachol.

### **Cwestiwn 10**

*Yn eich barn chi, pa gyfnod o amser sy'n briodol i roi digon o amser craffu er mwyn i newidiadau gael eu gwneud o dan bŵer 2?*

### **Cwestiwn 11**

*A ydych yn cytuno y dylai'r defnydd o bŵer 2 fod yn ddarostyngedig i 'glo'r' Senedd?*

### **Cwestiwn 12**

*A ydych yn cytuno mai dim ond i newidiadau sydd eu hangen i ymateb i newidiadau yng nghyllideb y DU sy'n effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru y dylai pŵer 2 fod yn gymwys? Os ydych o'r farn y dylai fod yn gymwys i fwy o amgylchiadau, nodwch nhw.*

### ***Pŵer 3: Diwygio effaith y rheoliadau a wneir yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau cadarnhaol ac 'uwchgadarnhaol' dros dro***

- 3.22 Fel arfer, caiff rheoliadau a wneir o dan bwerau 1 a 2 eu gwneud yn gyflym er mwyn sicrhau y daw'r newidiadau i bolisi trethi i rym ar unwaith neu ar fyr rybudd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru, yn dilyn hynny, yn nodi newidiadau pellach y gall fod angen iddi eu gwneud i'r rheoliadau er mwyn sicrhau bod y newid i bolisi trethi yn cael yr effaith lawn. Hefyd, mae'n bosibl y bydd achosion lle y bydd Llywodraeth Cymru am wneud newidiadau mewn ymateb i bwyntiau a nodwyd wrth graffu ar y rheoliadau neu o ganlyniad i adborth gan randdeiliaid.
- 3.23 Er mwyn sicrhau y gall Llywodraeth Cymru roi'r newidiadau 'dilynol' hyn ar waith, cynigir y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer gwneud rheoliadau ychwanegol ('pŵer 3'). Byddai rheoliadau a wneir o dan bŵer 3 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol arferol a byddent yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rheolau treth a gyflwynwyd gan y rheoliadau cadarnhaol dros dro cychwynnol o dan bŵer 1 neu 2.
- 3.24 Byddai rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn cael eu cyflwyno ar ffurf ddrafft cyn iddynt gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad y Senedd, yn unol â gweithdrefnau presennol y Senedd ar gyfer rheoliadau cadarnhaol drafft<sup>28</sup>.

---

<sup>(28)</sup> Mae Rheol Sefydlog 27.7 yn gwahardd y Senedd rhag ystyried cynnig i gymeradwyo rheoliadau cadarnhaol nes y bydd (i) y Pwyllgor sy'n gyfrifol am ystyried y rheoliadau wedi cyflwyno adroddiad arnynt, neu (ii) 20 diwrnod wedi mynd heibio, pa un bynnag yw'r cynharaf.

Byddai Llywodraeth Cymru yn anelu at gyflwyno'r rheoliadau ar ffurf ddrafft cyn gynted â phosibl ar ôl i'r angen am y newidiadau gael ei nodi.

## **Ôl-weithredu**

### **Pwerau 1-3**

- 3.25 O dan amgylchiadau eithriadol, gall fod yn ddymunol neu'n angenrheidiol i newidiadau penodol gael effaith ôl-weithredol. Fel arfer, bydd hyn yn gyfyngedig i achosion lle y bwriedir i effaith y rheoliadau fod o fudd i drethdalwyr Cymreig. Er enghraifft, pe bai Llywodraeth Cymru am i drethdalwyr Cymreig gael budd o leihad yn eu rhwymedigaeth dreth o'r un dyddiad y cyflwynwyd newid tebyg i dreth dir y dreth stamp (boed hynny o ganlyniad i fabwysiadu'r un polisi neu bolisi gwahanol), neu, pan fo angen cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol cyn y dyddiad y gwnaed y rheoliadau. Byddai angen ystyried unrhyw ddefnydd o'r pŵer yn ôl-weithredol yn ofalus fesul achos.
- 3.26 Yr egwyddor arweiniol fydd na fydd yn bosibl gwneud newidiadau sy'n cael effaith ôl-weithredol cyn dyddiad y rheoliadau cadarnhaol dros dro gwreiddiol pan fyddai hynny'n cynyddu rhwymedigaeth dreth trethdalwr. Fodd bynnag, pan gaiff rhwymedigaethau treth eu cynyddu yn ôl-weithredol ac y gallai trethdalwyr fod wedi disgwyl yn rhesymol i newidiadau ôl-weithredol gael eu cyflwyno, gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cynyddu rhwymedigaeth dreth trethdalwr. Er enghraifft, pan ddeuir o hyd i gynllun amhriodol ar gyfer osgoi trethi, gall Gweinidogion gyhoeddi y bydd y cynllun yn cael ei gau drwy reoliadau yn y dyfodol o ddyddiad y cyhoeddiad hwnnw.
- 3.27 Mae deddfwriaeth ôl-weithredol wedi'i defnyddio mewn perthynas â threth dir y dreth stamp gan Lywodraeth y DU<sup>29</sup>, ac mae'r llysoedd wedi ystyried y defnydd a wneir ohoni<sup>30</sup>. Fodd bynnag, mae'r defnydd o ddeddfwriaeth ôl-weithredol yn y DU sy'n cynyddu rhwymedigaeth trethdalwr cyn y dyddiad y gwnaed y ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i brotocol ar gyfer gwneud deddfwriaeth ôl-weithredol<sup>31</sup>. Os caiff deddfwriaeth ei chyflwyno yng Nghymru, cynigir y dylai gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi protocol ar ddefnyddio deddfwriaeth yn ôl-weithredol. Byddai drafft o'r protocol hwnnw yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Bil.

### **Cwestiwn 13**

*Yn eich barn chi, a yw'r defnydd o ddeddfwriaeth ôl-weithredol i wneud newidiadau i gyfraith drethi yn briodol o dan amgylchiadau penodol? Os felly, o dan ba amgylchiadau?*

<sup>29</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/207423/026\\_stamp\\_duty\\_land\\_tax\\_avoidance.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/207423/026_stamp_duty_land_tax_avoidance.pdf)

<sup>30</sup><https://www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/2015/648.html>

<sup>31</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/197112/Tackling\\_tax\\_avoidance.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/197112/Tackling_tax_avoidance.pdf), tud.19



#### **Cwestiwn 14**

*A oes unrhyw bwyntiau penodol y dylid eu cynnwys neu ymdrin â nhw yn y ddogfen brotocol, yn eich barn chi?*

#### ***Ymdrin ag achosion lle nad yw'r rheoliadau yn cael eu cymeradwyo***

3.28 Byddai'r pwerau a roddid gan y ddeddfwriaeth hon yn rhoi'r awdurdod interim ar gyfer newidiadau a nodir yn y rheoliadau. Gan gydnabod natur dros dro'r newidiadau hyn, bydd angen darparu hefyd ar gyfer ymdrin ag amgylchiadau lle nad yw'r Senedd yn cymeradwyo'r rheoliadau, naill ai am ei bod yn gwrthod y rheoliadau yn benodol drwy bleidlais neu am ei bod yn methu â chymeradwyo'r rheoliadau o fewn y cyfnod penodedig.

3.29 O dan yr amgylchiadau hyn, byddai'r ddeddfwriaeth yn gwneud darpariaeth i'w gwneud yn bosibl i drethdalwyr sydd wedi talu treth ychwanegol dderbyn ad-daliad o ganlyniad i'r newidiadau. Mae'n debygol y byddai darpariaeth o'r fath yn cael ei modelu ar adran 63A o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, sydd eisoes yn gwneud darpariaeth o'r fath os bydd y Senedd yn methu â chymeradwyo'r rheoliadau sy'n amrywio cyfraddau a bandiau treth. Ar y llaw arall, os bydd trethdalwyr wedi talu llai o dreth nag y byddent wedi'i wneud, ac nad yw'r rheoliadau yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, ni fydd ACC yn gallu ceisio'r dreth ychwanegol honno. Felly, Llywodraeth Cymru yn unig sy'n dwyn y risg na fydd y rheoliadau yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd.

#### **Cwestiwn 15**

*A ydych yn cytuno â'r cynnig ar gyfer ad-daliadau, sef mewn achosion lle mae'r:*

- a) trethdalwr wedi talu gormod o dreth o ganlyniad i'r rheoliadau a fethodd, y dylai fod ganddo'r hawl i gael ad-daliad;*
- b) trethdalwr wedi talu rhy ychydig o dreth o ganlyniad i'r rheoliadau a fethodd, na ddylai ACC allu casglu'r diffyg.*

#### ***Gwneud newidiadau eraill i Ddeddfau Trethi Cymru***

3.30 Mae a wnelo'r cynigion a nodwyd uchod â phwerau y byddai Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru sydd mewn ymateb i ddigwyddiadau y gellir ystyried eu bod yn fewnol i Lywodraeth Cymru, sef:

- bwriedir i newidiadau i fynd i'r afael â gweithgarwch osgoi ac efadu trethi ymateb i ymosodiadau gan leiafrif o drethdalwyr ar y cyfundrefnau treth,

- bwriedir i'r newidiadau i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol ymateb i unrhyw gytuniadau ac ati a gaiff eu llunio gan Lywodraeth y DU yn y dyfodol (mae Deddfau Trethi Cymru yn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol presennol y DU),
- bwriedir i'r newidiadau i ymateb i amgylchiadau eithriadol alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i sefyllfaoedd nas rhagwelwyd ond yr ystyrir bod angen gweithredu ar fyrder er mwyn mynd i'r afael â nhw (er enghraifft, penderfyniadau llys sy'n gofyn am ymateb deddfwriaethol, neu amgylchiadau mwy eithriadol megis argyfwng Covid-19),
- bwriedir i'r newidiadau a wneir mewn ymateb i newidiadau'r DU i drethi rhagflaenol sy'n effeithio ar yr addasiad i'r grant bloc, naill ai'n negyddol neu'n gadarnhaol, sicrhau y gall Gweinidogion Cymru ymateb mewn ffordd sy'n sicrhau y caiff y refeniw sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ei ddiogelu drwy gynyddu'r trethi a gesglir yng Nghymru, neu drosglwyddo gostyngiadau mewn rhwymedigaethau treth i drethdalwyr Cymreig.

3.31 Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai pwerau 1-3 gael eu defnyddio i wneud newidiadau polisi arferol i'r trethi datganoledig a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. O dan yr amgylchiadau hyn, lle y bo'n briodol gwneud hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio pwerau i wneud rheoliadau sy'n bodoli eisoes yn Neddfau Trethi Cymru neu, lle y bo angen, bydd yn defnyddio deddfwriaeth sylfaenol. Os caiff newid polisi ei gychwyn gan Lywodraeth Cymru (ac nid mewn ymateb i'r sefyllfaoedd a nodwyd), bydd angen rhoi'r newid ar waith drwy ddefnyddio'r pwerau sydd eisoes yn bodoli yn Neddfau Trethi Cymru, neu caiff ei gyflwyno drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'n amlwg po fwyaf arwyddocaol yw'r newid, mwya'n y byd yw'r angen i wneud y newidiadau hynny mewn ymgynghoriad â dinasyddion Cymru a grwpiau rhanddeiliaid â diddordeb.

3.32 Fodd bynnag, cydnabyddir na fyddai hyn yn gyson â safbwynt Trysorlys EM, lle gellir gwneud y rhan fwyaf o newidiadau i bolisi treth dir y dreth stamp a gyflwynir gan Drysorlys EM drwy reoliadau o dan adran 109 o Ddeddf Cyllid 2003, ar yr amod bod y Trysorlys yn ystyried bod y newidiadau er budd y cyhoedd. Mae rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i gymal machlud sy'n golygu, mewn ymarfer, fod y newid yn cael ei gynnwys yn y Bil Cyllid sy'n dilyn. Anaml iawn y mae Llywodraeth y DU yn defnyddio adran 109 o Ddeddf Cyllid 2003, gan ei bod yn fwy arferol iddi wneud newidiadau i ddeddfwriaeth treth dir y dreth stamp drwy'r Deddfau Cyllid blynyddol.

### **Cwestiwn 16**

*Yn eich barn chi, a ddylid defnyddio pŵer 2 i wneud unrhyw newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod er budd y cyhoedd, ac eithrio'r rhai a nodir ar gyfer pŵer 1?*

## **Pennod 4 – Astudiaethau achos**

### **Trosolwg**

4.1 Er mwyn dangos sut y gallai cynnig Llywodraeth Cymru weithio, mae'r bennod hon yn nodi enghreifftiau o rai newidiadau diweddar a wnaed i ddeddfwriaeth trethi gan Lywodraeth y DU. Mae'n ystyried effaith a chanlyniadau defnyddio pwerau sydd ar gael ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru, a sut y gellid gwneud y newidiadau hyn pe bai deddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith.

### **Osgoi**

#### **Enghraifft 1 – er mwyn mynd i'r afael â gweithgarwch osgoi**

Mae Deddf Cyllid 2003 yn gwneud sawl darpariaeth i ryddhau trafodiadau eiddo penodol o dreth dir y dreth stamp lle y defnyddir trefniadau 'cyllid eiddo amgen'. Ymhlith y gwahanol amodau a oedd yn gymwys i nifer o'r rhyddhadau roedd gofyniad bod y prynwr yn y trafodiad yn "sefydliad ariannol" fel y'i diffinnir gan adran 46 o Ddeddf Cyllid 2005. Roedd y diffiniad hwn yn arbennig o eang ac roedd yn cynnwys personau a oedd wedi'u hawdurdodi i redeg busnes credyd defnyddwyr neu fusnes hurio i ddefnyddwyr.

Yng Nghyllideb y Gwanwyn 2011 Llywodraeth y DU, newidiwyd y diffiniad fel nad oedd yn cynnwys person wedi'i awdurdodi i redeg busnes credyd defnyddwyr na busnes hurio i ddefnyddwyr mwyach. Gwnaed y newid hwn er mwyn rhoi terfyn ar y defnydd o gynlluniau osgoi treth dir y dreth stamp a oedd yn manteisio ar ba mor hawdd (o gymharu, er enghraifft, â'r gofynion i fod yn fanc) y gallai person a oedd yn honni ei fod yn fusnes credyd defnyddwyr gael awdurdodiad o'r fath. Roedd y cynlluniau osgoi yn defnyddio busnes credyd defnyddwyr awdurdodedig i weithredu fel sefydliad ariannol er mwyn ei gwneud yn bosibl i dreth dir y dreth stamp gael ei hosgoi.

Gwnaed y newidiadau hyn yn weithredol o'r diwrnod ar ôl dyddiad Cyllideb y DU ac fe'u rhoddwyd ar waith drwy gynnig ffyrdd a moddau a wnaed gan ddefnyddio Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968.

#### **Gallu presennol Llywodraeth Cymru i ymateb**

Yn yr achos penodol hwn, byddai Llywodraeth Cymru wedi gallu ymateb i'r newid hwn drwy reoliadau, am y byddai'r rheolau cyfatebol wedi'u nodi mewn atodlen i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

Byddai'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol drafft, sy'n golygu y byddai angen i reoliadau drafft gael eu gosod gerbron y Senedd a chael eu cymeradwyo ganddi drwy bleidlais fwyafrifol cyn i'r rheoliadau allu gael eu gwneud a dod i rym, a dim ond ar ôl i

20 diwrnod eistedd fynd heibio ers i'r rheoliadau drafft gael eu gosod gerbron y Senedd, neu ers i'r Pwyllgor perthnasol gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau (pa un bynnag yw'r cynharaf) y gellid gwneud cynnig i gymeradwyo'r rheoliadau drafft.

Felly, er y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu ymateb i'r gweithgarwch osgoi penodol hwn drwy reoliadau, ni fyddent yn gallu ymateb o fewn cyfnod tebyg i amserlen Llywodraeth y DU. Felly, gellid parhau i ymosod ar y gyfundrefn trafodiadau tir mewn ffordd nad oedd yn bosibl mwyach yng nghyfundrefn treth dir y dreth stamp.

Er enghraifft (a chan ddefnyddio amserlen doriadau Senedd 2019-20 at ddibenion enghreifftiol), pe bai'r DU wedi cyhoeddi Cyllideb ar 27 Tachwedd 2019 a phe bai rheoliadau drafft Gweinidogion Cymru wedi'u cyhoeddi ac wedi'u gosod gerbron y Senedd ar 4 Rhagfyr, gyda'r Senedd yn torri rhwng 16 Rhagfyr a 5 Ionawr, y dyddiad cynharaf y gellid pleidleisio ar y rheoliadau fyddai dydd Mercher, 15 Ionawr 2020 (20 diwrnod eistedd ar ôl i'r rheoliadau drafft gael eu gosod gerbron y Senedd). Fodd bynnag, y dyddiad cynharaf y gellid cynnal pleidlais fyddai yn y cyfarfod llawn ddydd Mawrth 21 Ionawr 2020. Felly, byddai bron i 8 wythnos pan allai'r llwybr osgoi posibl barhau i gael ei hyrwyddo neu ei ddefnyddio.

Fodd bynnag, mae'r amgylchiadau presennol mewn perthynas â threth trafodiadau tir yn wahanol am fod Deddfau Trethi Cymru yn cynnwys y Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi<sup>32</sup> ac, felly, ni fyddai'n bosibl marchnata cynllun o'r fath yng Nghymru heddiw heb ofyn y cwestiwn pam nad oedd y Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi yn gymwys i'r trefniadau. Fodd bynnag, gallai fod yn ddymunol gwneud newid deddfwriaethol o hyd i egluro'r ddeddfwriaeth er mwyn atal hyrwyddwyr rhag gallu hyrwyddo eu cynllun.

### *Gallu arfaethedig Llywodraeth Cymru i ymateb*

Pe bai opsiwn arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gael pan nodid y newid hwn, byddai Gweinidogion Cymru yn gallu gosod rheoliadau gerbron y Senedd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol dros dro o dan bŵer 1 (gweler paragraff 3.11). Effaith hyn fyddai bod y newidiadau yn dod yn gyfraith ar y dyddiad y gwneir y rheoliadau gan roi sicrwydd cynnar ynglŷn â'r gyfraith a dileu'r risg y parheir i ymosod ar y sylfaen drethu Gymreig. Byddai effaith barhaol y newid yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, y byddai angen iddo gael ei rhoi o fewn 28 diwrnod. Pe bai'r Senedd yn gwrthod y rheoliadau, yna byddai trethdalwyr yn gallu gwneud cais i Awdurdod Cyllid Cymru i unrhyw dreth ychwanegol a dalwyd o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed gan y rheoliadau gael ei had-dalu iddynt.

Gan ddefnyddio'r enghraifft uchod, byddai'r rheoliadau cadarnhaol dros dro a wnaed ar 4 Rhagfyr yn dod yn gyfraith ar y dyddiad hwnnw. Byddai angen i'r Senedd bleidleisio i gymeradwyo'r rheoliadau hynny erbyn 17 Ionawr 2020

<sup>32</sup> Adrannau 81A-81I o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

(28 diwrnod eistedd o'r dyddiad y gwnaed y rheoliadau<sup>33</sup>), ond byddai'r bleidlais yn cael ei chynnal ddydd Mawrth 14 Ionawr, neu ddydd Mercher 15 Ionawr yn y Cyfarfod Llawn.

## **Enghraifft 2 – Cau cynllun osgoi**

Pe bai Llywodraeth y DU am ymateb i weithgarwch osgoi y tu allan i'r cyfnod pan fo Bil Cyllid gerbron Senedd y DU, yna gwneir datganiad cyhoeddus a chyhoeddir deddfwriaeth a gaiff ei chynnwys yn y gyllideb nesaf<sup>34</sup>.

Er enghraifft, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ar 21 Rhagfyr 2012 y byddai'n cau cynllun osgoi “which was being marketed as a way for companies to artificially reduce their corporation tax bills” ar unwaith<sup>35</sup>. Cyhoeddwyd deddfwriaeth ddrafft ar yr un pryd a chyhoeddwyd y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei chynnwys ym Mil Cyllid 2013 (a gyhoeddwyd ar ôl y gyllideb ar 20 Mawrth 2013). Cafodd Bil Cyllid 2013 Gydsyniad Brenhinol ar 17 Gorffennaf 2013.

Nid yw treth gorfforaeth wedi'i datganoli i Gymru a bwriedir i'r enghraifft hon ddangos sut mae Llywodraeth y DU yn cymryd camau yn erbyn gweithgarwch osgoi y tu allan i broses gyllidebol y DU (er bod y ddeddfwriaeth honno yn cael ei chynnwys wedyn mewn Bil Cyllid).

### **Gallu presennol Llywodraeth Cymru i ymateb**

Am fod yr enghraifft uchod yn ymwneud â threth a gadwyd yn ôl, efallai y bydd yn ddefnyddiol ystyried sut y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu ymateb ar hyn o bryd pe gwneid datganiad tebyg yn cau cynllun osgoi y tu allan i un o Gyllidebau'r DU, ond mewn perthynas â Threth Dir y Dreth Stamp yn hytrach na threth gorfforaeth.

Mae'n bosibl bod Awdurdod Cyllid Cymru a Llywodraeth Cymru wedi dod yn ymwybodol o'r cynllun osgoi ar yr un pryd â Llywodraeth y DU (hynny yw, cyn dyddiad Cyllideb y DU).

Fel yn achos enghraifft 1, gallai Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio ei phwerau i ddiwygio rhyddhadau yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, fod wedi cymryd camau i gau'r llwybr osgoi tybiedig cyn i'r camau gael eu cymryd gan Lywodraeth y DU yn y Bil Cyllid. Felly, gallai Gweinidogion Cymru ddiogelu'r sylfaen drethu Gymreig cyn gynted â phosibl yn hytrach nag aros am ddigwyddiad cyllidol penodol, megis gosod Bil Cyllid gerbron y Senedd. Fodd bynnag, byddai'r camau gweithredu hynny yn dal i fod yn ddarostyngedig i reoliadau a wnaed o dan y weithdrefn gadarnhaol ac, felly,

<sup>33</sup> Dyddiadau torri Senedd Cymru 21 Rhagfyr 2019 i 5 Ionawr 2020 yn gynnwysedig.

<sup>34</sup> [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/197112/Tackling\\_tax\\_avoidance.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/197112/Tackling_tax_avoidance.pdf), tud.19

<sup>35</sup> <https://www.gov.uk/government/news/carillion-whats-happening-now>

byddai angen iddynt gael eu cyflwyno ar ffurf ddrafft cyn iddynt fod yn destun pleidlais yn y Senedd a chael eu gwneud wedyn. Ni ellir gwneud rheoliadau o'r fath yn ôl-weithredol.

*Gallu arfaethedig Llywodraeth Cymru i ymateb*

Byddai'r effaith yn debyg i enghraifft 1, sef y byddai'r newidiadau, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn dod yn gyfraith ar y dyddiad y gwnaed y rheoliadau cadarnhaol dros dro gan ddefnyddio pŵer 1. Fodd bynnag, byddai'r gallu arfaethedig i ymateb yn golygu bod camau yn cael eu cymryd yn gynharach a bod sicrwydd cynnar yn cael ei roi i drethdalwyr, eu cynghorwyr a Llywodraeth Cymru.

***Newidiadau sylfaenol i'r gyfundrefn dreth***

**Enghraifft 3 – Newid y dull o gyfrifo rhwymedigaethau treth, o system slab i system ymylol**

Yn Natganiad yr Hydref 2014 Llywodraeth y DU, cyhoeddwyd y bwriad i newid o system slab i system ymylol ar gyfer cyfrifo cyfraddau treth dir y dreth stamp ar eiddo preswyl. Bwriadwyd i'r newidiadau ddod i rym o 4 Rhagfyr 2014, sef y diwrnod ar ôl dyddiad Datganiad yr Hydref, drwy gynnig ffyrdd a moddau a wneid gan ddefnyddio Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968.

Un o'r amodau y mae'n rhaid ei fodloni er mwyn i gynnig ffyrdd a moddau barhau mewn grym yw bod Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r amrywiad hwnnw gael ei ddarllen am yr ail dro gan Dŷ'r Cyffredin o fewn 30 diwrnod eistedd i dderbyn y cynnig. Ar yr achlysur hwn, ni ddefnyddiwyd Bil Cyllid i roi'r newid ar waith ond ar 3 Rhagfyr 2014 cyflwynwyd Treth Dir y Dreth Stamp<sup>36</sup>, gan ddarparu'r cyfrwng deddfwriaethol i sicrhau y byddai'r cynigion ffyrdd a moddau yn parhau mewn grym nes i'r Bil hwnnw gael Cydsyniad Brenhinol.

Wedyn, yng Nghyllideb y Gwanwyn 2016, cyflwynwyd cyfraddau ymylol ar gyfer trafodiadau annomestig. Daeth y newid hwn i rym o'r diwrnod ar ôl dyddiad y Gyllideb drwy gynnigion ffyrdd a moddau a wnaed gan ddefnyddio Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968. Roedd y Bil Cyllid dilynol yn cynnwys darpariaeth a sicrhodd, drwy broses y Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro, fod y newid a roddwyd ar waith i ddechrau drwy'r cynnig yn cael effaith gyfreithiol barhaol.

*Gallu presennol Llywodraeth Cymru i ymateb*

<sup>36</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/draft-legislation-stamp-duty-land-tax-reform-of-structure-rates-and-threshold>

Ni fyddai Gweinidogion Cymru mewn sefyllfa i ymateb i'r newidiadau i'r broses o gyfrifo rhwymedigaethau treth drwy un un o'r pwerau gwneud rheoliadau presennol a nodir yn Neddau Trethi Cymru. Er mwyn rhoi'r newid hwn ar waith, byddai angen pasio deddfwriaeth sylfaenol, naill ai drwy ddefnyddio'r broses safonol ar gyfer Biliau neu broses y Bil Brys neu garlam.

#### Gallu arfaethedig Llywodraeth Cymru i ymateb

O dan y cynnig a nodir ym Mhennod 3, byddai'r newid hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ofyn i'r Senedd 'ddatgloi' pŵer 2 er mwyn eu galluogi i wneud rheoliadau 'uwchgadarnhaol' dros dro. Ar yr un pryd, byddai cyfraddau a bandiau newydd, yn seiliedig ar y dull cyfrifo newydd, yn cael eu pennu o fewn yr un rheoliadau o dan bŵer 2 gan ddefnyddio'r un weithdrefn gadarnhaol dros dro. Bydd hyn yn sicrhau bod y rheolau a'r cyfraddau sy'n gysylltiedig â nhw naill ai'n llwyddo i gael cymeradwyaeth y Senedd, neu'n methu â'i chael, gyda'i gilydd.

Byddai hyn yn golygu y byddai'r newidiadau i'r dull cyfrifo (a'r newidiadau canlyniadol i'r cyfraddau a'r bandiau treth) yn cael effaith gyfreithiol dros dro, ond ar unwaith, ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion. Fodd bynnag, ni fyddai'r newidiadau yn cael effaith gyfreithiol barhaol oni fyddai'r Senedd yn cymeradwyo'r rheoliadau. Byddai'r cyfnod craffu estynedig a gynigir gan bŵer 2 yn rhoi amser i bwyllgorau perthnasol y Senedd graffu a, phe bai'n ystyried bod hynny'n briodol, gael tystiolaeth am effaith y newidiadau gan randdeiliaid ac adrodd ar y newidiadau a wnaed gan y rheoliadau.

Os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r rheoliadau, bydd y newidiadau yn cael effaith gyfreithiol barhaol. Pe bai'r Senedd yn gwrthod y rheoliadau, yna byddai trethdalwyr yn gallu gwneud cais i Awdurdod Cyllid Cymru i unrhyw dreth ychwanegol a dalwyd o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed gan y rheoliadau a wrthodwyd gael ei had-dalu.

Os nodir gwelliannau i'r rheoliadau yn ystod y cyfnod craffu estynedig, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cyflwyno rheoliadau o dan bŵer 3 er mwyn gwneud newidiadau pellach i ddelio â'r gwelliannau hynny. Gellid ôl-ddyddio'r rheoliadau hyn i'r dyddiad y daeth y newidiadau cychwynol i rym, pe bai'r Senedd yn ystyried bod hynny'n briodol ac yn ei gymeradwyo.

#### **Enghraifft 4 – Cyflwyno cyfundrefn codi treth newydd, cyfraddau uwch ar gyfer mathau penodol o eiddo a phrynwyr penodol**

Yn Natganiad yr Hydref Llywodraeth y DU, a wnaed ar 25 Tachwedd 2015, cyhoeddodd y Canghellor y byddai cyfraddau newydd uwch o dreth dir y dreth stamp yn cael eu codi ar anheddau a brynir os oes gan y prynwr fuddiant mewn annedd arall eisoes. Yn dilyn y cyhoeddiad hwnnw,

lansiwyd ymgynghoriad ar 28 Rhagfyr 2015 a ddaeth i ben ar 1 Chwefror 2016. Cyhoeddwyd yr ymateb i'r ymgynghoriad ar 16 Mawrth 2016, sef yr un dyddiad â Chyllideb y DU ei hun. Cyhoeddwyd y ddeddfwriaeth ddrafft ar gyfer cyfraddau uwch treth dir y dreth stamp ar 16 Mawrth ac roedd yn cynnwys cynnig ffyrdd a moddau a wnaed gan ddefnyddio Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 i roi'r gyfundrefn codi treth newydd ar waith o 1 Ebrill 2016, gan ddarparu ffenestr fach rhwng cyhoeddi'r penderfyniad i roi polisi newydd ar waith a'r adeg y byddai'n dod i rym.

### Gallu presennol Llywodraeth Cymru i ymateb

Cododd y cyfraddau uwch yng Nghymru tua £60 miliwn yn 2018-19. Pe na bai Cymru wedi bod mewn sefyllfa i ymateb a chyflwyno cyfundrefn debyg yn yr un cyfnod rhwng 25 Tachwedd 2015 a 1 Ebrill 2016, byddai'r cyfuniad o gynnydd yn yr addasiad i'r grant bloc a cholli'r referniw ychwanegol wedi arwain at leihad sylweddol yn adnoddau Llywodraeth Cymru yn gyffredinol. Y rheswm dros hyn yw y byddai treth dir y dreth stamp wedi bod yn gwneud mwy o ymdrech dreth ac y byddai'r addasiad i'r grant bloc wedi cael ei addasu i gynnwys yr ymdrech gynyddol (gweler paragraff 1.9). Roedd hwn yn fater na chododd am nad oedd treth trafodiadau tir wedi dod i rym eto ac am fod cyfundrefn cyfraddau uwch wedi cael ei chynnwys yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ar ôl i Lywodraeth Cymru geisio barn ar ei dull o ymdrin â chyfraddau uwch o dreth trafodiadau tir.

Ystyriodd Llywodraeth yr Alban fod angen ymateb cyflym i gyhoeddiad Llywodraeth y DU ynglŷn â chyfraddau uwch ar 25 Tachwedd 2015. Roedd y dreth yn yr Alban a oedd yn cyfateb i'r Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau wedi dod yn weithredol yn yr Alban ar 1 Ebrill 2015. Mae'r addasiad i grant bloc yr Alban yn gweithio mewn ffordd debyg ag y byddai'n gweithio yng Nghymru ac, felly, byddai'r ymdrech dreth fwy o ran Treth Dir y Dreth Stamp yn cael effaith gymesur debyg ar yr addasiad i grant bloc yr Alban.

Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban ddeddfwriaeth sylfaenol ddrafft mewn perthynas â'r Tâl Atodol Annedd Ychwanegol (ADS) i Senedd yr Alban ar 28 Ionawr 2016, cyn i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ddod i ben a chyn i ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU gael ei chyhoeddi ar 16 Mawrth 2016. Gan ystyried amseriad y ddeddfwriaeth, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol gan Lywodraeth yr Alban, er i Bwyllgor Cyllid yr Alban gyhoeddi cais am dystiolaeth ar 6 Ionawr 2016. Hefyd, cynhaliodd Llywodraeth yr Alban ddau "*Stakeholder Reference Group meetings ... at which various interested parties were invited to comment on policy details*"<sup>37</sup>.

Er mwyn i Lywodraeth yr Alban allu rhoi'r Tâl Atodol Annedd Ychwanegol (ADS) ar waith erbyn 1 Ebrill 2016, roedd angen i'r ddeddfwriaeth honno gael Cydsyniad Brenhinol cyn y dyddiad hwnnw (am nad oedd gan

<sup>37</sup> [https://www.parliament.scot/S4\\_FinanceCommittee/Reports/FIS042016R03.pdf](https://www.parliament.scot/S4_FinanceCommittee/Reports/FIS042016R03.pdf)



Lywodraeth yr Alban bwerau i wneud cynigion ffyrdd a moddau fel y'u rhoddwyd i Lywodraeth y DU yn Neddf Casglu Trethi Dros Dro 1968). Felly, roedd cyfnod cyfyngedig pan allai Senedd yr Alban wneud ei gwaith craffu. Cyhoeddwyd adroddiad Pwyllgor Cyllid yr Alban ar 12 Chwefror, cynhaliwyd dadl Cam 1 yn Senedd yr Alban ar 23 Chwefror, cwblhawyd Cam 2, yng nghyfarfod y pwyllgor, ar 2 Mawrth, cynhaliwyd Cam 3 lle y cymeradwywyd y Bil gan Senedd yr Alban ar 8 Mawrth a chafwyd Cydsyniad Brenhinol ar 24 Mawrth 2016.

Cymerodd y broses, o ddyddiad cyhoeddi'r ddeddfwriaeth i'r adeg y cymeradwywyd y Bil gan Senedd yr Alban, gyfanswm o 34 diwrnod eistedd.

### *Gallu presennol Llywodraeth Cymru i ymateb*

Fe'i hystyrir yn annhebygol y gallai Gweinidogion Cymru ymateb yn llawn ac yn effeithiol i'r penderfyniad i gyflwyno cyfundrefn codi treth newydd debyg i'r gyfundrefn cyfraddau uwch drwy unrhyw rai o'r pwerau a nodir yn Neddfau Trethi Cymru. Felly, er mwyn rhoi'r newid hwn ar waith, byddai angen pasio deddfwriaeth sylfaenol, naill ai drwy ddefnyddio'r broses safonol ar gyfer Biliau neu broses y Bil Brys neu garlam, gyda phwysau amser tebyg i'r rhai a wynebwyd gan Lywodraeth a Senedd yr Alban.

### *Gallu arfaethedig Llywodraeth Cymru i ymateb*

Fel yn enghraifft 3, o dan y cynigion a nodir ym Mhennod 3, gallai rheoliadau a wneid gan ddefnyddio pŵer 2 effeithio ar newid arwyddocaol â goblygiadau i Gyllideb Cymru, a byddai unrhyw reoliadau a wneid yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu 'uwchgadarnhaol' dros dro. Cyn y gellid gwneud y rheoliadau, byddai angen i'r pŵer gael ei 'ddatgloi' gan y Senedd.

Byddai hyn yn golygu y byddai'r gyfundrefn codi treth newydd (a'r cyfraddau a'r bandiau treth canlyniadol) yn cael effaith gyfreithiol dros dro, ond ar unwaith, ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion. Fodd bynnag, ni fyddai'r newidiadau yn cael effaith gyfreithiol barhaol oni fyddai'r Senedd yn cymeradwyo'r rheoliadau. Byddai'r cyfnod craffu estynedig a gynigir gan bŵer 2 yn rhoi amser i bwyllgorau perthnasol y Senedd allu craffu ar effaith y newidiadau, cael tystiolaeth am effaith y newidiadau gan randdeiliaid ac adrodd ar y newidiadau a wnaed gan y rheoliadau.

Os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r rheoliadau, bydd y newidiadau yn cael effaith gyfreithiol barhaol. Pe bai'r Senedd yn gwrthod y rheoliadau, yna byddai trethdalwyr yn gallu gwneud cais i Awdurdod Cyllid Cymru i unrhyw dreth ychwanegol a dalwyd o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed gan y rheoliadau a wrthodwyd gael ei had-dalu.

Os nodir gwelliannau i'r rheoliadau yn ystod y cyfnod craffu estynedig, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cyflwyno rheoliadau o dan bŵer 3 er mwyn gwneud newidiadau pellach i ddelio â'r gwelliannau hynny. Gellid ôl-ddyddio'r rheoliadau hyn i'r dyddiad y daeth y newidiadau cychwynol i rym, pe bai'r Senedd yn ystyried bod hynny'n briodol ac yn ei gymeradwyo.

### **Enghraifft 5 – Cyflwyno rhyddhad newydd**

Yng Nghyllideb yr Hydref 2017 Llywodraeth y DU, cyflwynodd y Canghellor ryddhad i brynwyr tro cyntaf<sup>38</sup> a fyddai'n weithredol o ddyddiad araith y gyllideb (22 Tachwedd 2017). Gwnaed cynnig ffyrdd a moddau gan ddefnyddio Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 i roi'r rhyddhad ar waith ar unwaith.

Dilynodd Llywodraeth Cymru drywydd gwahanol ac ni chynhwysodd ryddhad prynwyr tro cyntaf yn y dreth trafodiadau tir. Fodd bynnag, defnyddir yr enghraifft hon i ystyried gallu Llywodraeth Cymru i ymateb os bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno rhyddhad newydd i dreth ragflaenol yng Nghyllideb y DU.

#### **Gallu presennol Llywodraeth Cymru i ymateb**

Mae adran 30 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn galluogi Gweinidogion i gyflwyno rhyddhad newydd drwy reoliadau. Gallai fod wedi cael ei defnyddio i gyflwyno'r hyn sy'n cyfateb i ryddhad prynwyr tro cyntaf, pe bai Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ei fod yn ymateb priodol i'r newid i dreth dir y dreth stamp a wnaed gan Lywodraeth y DU.

#### **Gallu arfaethedig Llywodraeth Cymru i ymateb**

O dan y cynnig a nodir ym Mhennod 3, byddai newid arwyddocaol, â goblygiadau i Gyllideb Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ofyn i'r Senedd 'ddatgloi' pŵer 2 er mwyn eu galluogi i wneud rheoliadau 'uwchgadarnhaol' dros dro. Mantais defnyddio'r llwybr 'uwchgadarnhaol' dros dro i gyflwyno'r rhyddhad yw y gallai'r rhyddhad ddod yn weithredol ar y dyddiad y gwneir y rheoliadau, nid pan gânt eu cymeradwyo gan y Senedd, sy'n golygu bod trethdalwyr Cymreig yn gallu hawlio'r rhyddhad cyn gynted â phosibl.

Byddai hyn yn golygu y byddai'r rhyddhad newydd yn cael effaith gyfreithiol dros dro, ond ar unwaith, ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion. Fodd bynnag, ni fyddai'r newidiadau yn cael effaith gyfreithiol barhaol oni fyddai'r Senedd yn cymeradwyo'r rheoliadau. Byddai'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r cyfnod craffu estynedig a gynigir gan bŵer 2, a fyddai'n rhoi amser i bwyllgorau perthnasol y Senedd allu craffu ar effaith y newidiadau, cael tystiolaeth am effaith y newidiadau gan randdeiliaid ac adrodd ar y newidiadau a wnaed gan y rheoliadau.

Os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r rheoliadau, bydd y newidiadau yn cael effaith gyfreithiol barhaol. Pe bai'r Senedd yn gwrthod y rheoliadau, yna byddai trethdalwyr yn dal i allu gwneud cais am y rhyddhad ar gyfer y cyfnod cyn i'r Senedd bleidleisio i wrthod y rheoliadau (petaent wedi cyflwyno eu ffurflen cyn y dyddiad hwnnw gyda'r hawliad perthnasol). Ni fyddai ACC yn gallu gofyn i'r

<sup>38</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/stamp-duty-land-tax-relief-for-first-time-buyers-guidance-note>

trethdalwyr hynny dalu'r dreth ychwanegol y byddent wedi'i thalu pe na bai'r rheoliadau wedi cael eu gwneud.

Os nodir gwelliannau i'r rheoliadau yn ystod y cyfnod craffu estynedig, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cyflwyno rheoliadau o dan bŵer 3 er mwyn gwneud newidiadau pellach i ddelio â'r gwelliannau hynny. Gellid ôl-ddyddio'r rheoliadau hyn i'r dyddiad y daeth y newidiadau cychwynol i rym, pe bai'r Senedd yn ystyried bod hynny'n briodol ac yn ei gymeradwyo.

### **Enghraifft 6 – diwygiad i ryddhad**

Ar 1 Ebrill 2018, disodlodd treth gwarediadau tirlenwi dreth dirlenwi yng Nghymru. Yn fuan ar ôl hynny, cysylltodd gweithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru ag Awdurdod Cyllid Cymru i godi dau anghysondeb posibl rhwng bwriadau Llywodraeth Cymru a'r ddeddfwriaeth fel y'i drafftwyd mewn perthynas â gweithredu'r ddau ryddhad hynny.

#### **Gallu presennol Llywodraeth Cymru i ymateb**

Defnyddiodd Gweinidogion Cymru bwerau yn Neddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 i wneud rheoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol dros dro, i ddiwygio'r rhyddhadau. Gwnaed y rheoliadau hyn mor gyflym â phosibl a sicrhodd y camau buan a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru eglurder a sicrwydd cyfreithiol cynnar am fod y newidiadau wedi dod yn gyfraith pan wnaed y rheoliadau, a ddigwyddodd ar ôl i'r newidiadau gael eu cymeradwyo gan y Senedd. Daeth y newid cyntaf yn weithredol o 11 Hydref 2018<sup>39</sup> a'r ail o 19 Gorffennaf 2019<sup>40</sup>.

Sicrhodd y newidiadau y gallai gweithredwyr safleoedd tirlenwi roi eu prosiectau adfer safleoedd ar waith yn ôl y bwriad.

#### **Gallu arfaethedig Llywodraeth Cymru i ymateb**

Dengys y camau a gymerwyd uchod ymatebolrwydd Llywodraeth Cymru i adborth mewn perthynas â'r ffordd y mae'r trethi yn gweithio.

Fodd bynnag, os caiff gallu arfaethedig Llywodraeth Cymru i ymateb ei roi ar waith, byddai'n bosibl i Weinidogion Cymru weithredu'n gyflymach fyth a gallent fod wedi cyflwyno'r newidiadau a fyddai wedi dod yn weithredol bron ar unwaith o dan bŵer arfaethedig 1.

<sup>39</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/1057/contents/made/welsh/> / <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/1057/contents/made>

<sup>40</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/1143/contents/made/> / <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/1143/contents/made/welsh>

Gellid ystyried bod y rheswm 'angen eithriadol' yn cael ei ddefnyddio er mwyn galluogi gweithredwyr safleoedd i ddechrau gwaith adfer cyn gynted â phosibl, gan ddiogelu'r amgylchedd yn well.

Er bod gan Lywodraeth y DU lawer o bwerau gwneud rheoliadau o'r fath er mwyn gwneud newidiadau i'w threthi, yn aml iawn bydd yn aros tan Fil Cyllid dilynol i wneud newid. Wrth wneud hynny, mae ganddi'r fantais y gellir nodi newidiadau yn hawdd mewn Deddf Cyllid. Fodd bynnag, gall hyn olygu bod newidiadau yn cael eu gwneud yn hwyrach nag y byddai wedi bod yn ddelfrydol fel arall. Rhoddir enghraifft dda o hyn yn enghraifft 2 uchod.

### **Cwestiwn 17**

*A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr enghreifftiau o newidiadau deddfwriaethol i drethi a ddisgrifiwyd yn enghreifftiau 1 i 6?*

### **Cwestiwn 18**

*A ydych yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau eraill o newidiadau deddfwriaethol i drethi y bydd yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru eu hystyried yng nghyd-destun diwygio Deddfau Trethi Cymru?*

## Atodiad 1

# ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL CYCHWYNNOL

## Cwmpas

1. Cwmpas yr asesiad effaith rheoleiddiol cychwynnol yw ystyried:
  - yr opsiynau ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd o dan amgylchiadau penodol,
  - ar lefel uchel, y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r prosesau a ddefnyddir i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, yn hytrach nag effaith y newidiadau yn y trethi eu hunain (nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd),
  - y costau gweinyddol gwahanol sy'n gysylltiedig â phob opsiwn ac unrhyw effeithiau byrdymor sy'n deillio o'r amserlenni gwahanol ar gyfer pasio'r ddeddfwriaeth.
2. Os caiff llwybr deddfwriaethol ei ddatblygu er mwyn rhoi'r pwerau i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ar waith ar fyr rybudd, cynhelir Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn er mwyn asesu costau a manteision cymharol y newidiadau arfaethedig. Bydd yn ystyried effaith debygol y cynigion ar drethdalwyr Cymreig, rhanddeiliaid allweddol ac economi Cymru.

## Cefndir

3. Sefydlwyd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) ym mis Hydref 2017 ac mae wedi casglu'r trethi a ddatganolwyd i Gymru, treth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi, ers dros ddwy flynedd. Gan fod y trethi bellach wedi'u sefydlu'n gadarn, mae cyfle i adolygu ac ystyried a yw'r adnoddau gorau a mwyaf priodol ar waith er mwyn sicrhau y gall Deddfau Trethi Cymru weithio'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y gellir gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd o dan nifer o amgylchiadau, gan gynnwys:
  - v. er mwyn atal achosion o osgoi neu efadu'r trethi a ddatganolwyd i Gymru,
  - vi. er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol,
  - vii. mewn sefyllfaoedd lle mae angen eithriadol, megis mewn ymateb i benderfyniad tribiwnlys neu lysoedd uwch, neu mewn ymateb i argyfyngau cenedlaethol megis COVID-19,
  - viii. pan wneir newidiadau i drethi rhagflaenol y DU<sup>41</sup> gan Lywodraeth y DU, y gallai fod iddynt oblygiadau i fusnesau, y farchnad eiddo, yr amgylchedd a'r adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

---

<sup>41</sup> Gweler y rhestr termau

4. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi asesiad cychwynnol o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn. Croesewir unrhyw sylwadau ac fe'u defnyddir i lywio'r asesiad llawn.

## Opsiyau

5. Ystyrir costau a manteision y tri opsiwn canlynol:

- Gwneud dim,
- Rhoi deddfwriaeth ar waith er mwyn ei gwneud yn bosibl i reoliadau gael eu cyflwyno i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru o dan amgylchiadau penodol ar fyr rybudd,
- Rhoi deddfwriaeth sy'n cyfateb i Fil Cyllid blynyddol Llywodraeth y DU ar waith

## Opsiw 1: Gwneud dim

6. Yn y senario hwn, pe bai'n cael ei nodi bod angen gwneud un o'r mathau o newidiadau a nodir ym mharagraff 3 i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd, byddai Llywodraeth Cymru yn gallu defnyddio un o ddau ddull sy'n bodoli eisoes i roi'r newid ar waith:

- proses bresennol y Bil Brys neu 'garlam'. Byddai costau yn gysylltiedig â'r broses hon ac mae'n bosibl y byddai llai o amser neu gyfleoedd cyfyngedig i graffu. At hynny, gallai Gweinidogion Cymru gael eu beirniadu am ddefnyddio'r dull hwn sydd wedi cael ei ddefnyddio'n anaml yn y gorffennol a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol,
- y broses safonol bresennol ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, sy'n debygol o gymryd rhwng 12 a 18 mis. Mae goblygiadau hyn i'r tri math o newidiadau a nodir ym mharagraff 2 fel a ganlyn:
  - i. Derbyn y bydd unrhyw **weithgarwch efadu neu osgoi** yn parhau yng Nghymru am tua 12-18 mis. Bydd costau methu ag atal gweithgarwch osgoi ac efadu yn dibynnu, wrth gwrs, ar y gweithgarwch a dargedir. Gallai gyfateb i symiau sylweddol o reffeniw treth.
  - ii. Derbyn na fydd Cymru yn cydymffurfio â'i **rhwymedigaethau rhyngwladol** am tua 12-18 mis. Ar y cyfan, mae'n debygol y bydd y gost bosibl yma yn ymwneud yn fwy ag enw da Cymru. Os na fydd Deddfau Trethi Cymru yn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, byddai unigolyn yn gallu dibynnu ar y darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn sicrhau nad yw o dan anfantais yn ariannol<sup>42</sup>.

---

<sup>42</sup> Mae adran 116A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu na ellir gosod treth ddatganoledig "where to do so would be incompatible with any international obligations".

- iii. Derbyn na fydd Gweinidogion Cymru yn gallu ymateb i **amgylchiadau eithriadol** am 12-18 mis, a allai arwain at gostau ariannol a niweidio enw da Cymru.
  - iv. Derbyn na fydd Gweinidogion Cymru yn gallu ymateb i **newidiadau a wneir i drethi rhagflaenol** ac addasiadau dilynol i grant bloc Cymru<sup>43</sup> am tua 12-18 mis, a allai olygu bod Cymru yn colli referniw. Yn y senario hwn, byddai angen i Lywodraeth Cymru naill ai weithredu â chyllideb lai neu ddod o hyd i ffyrdd eraill o godi referniw o'r fath er mwyn cynnal y lefelau presennol o adnoddau.
7. Dylid nodi, ar gyfer deddfwriaeth Frys, 'garlam' a sylfaenol, y gallai effeithiau unrhyw newid ar drethi, gyda chymeradwyaeth y Senedd, gael eu cymhwyso'n ôl-weithredol. Gallai hyn helpu i leihau'r risg o gostau cynyddol, yn enwedig ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, o gofio faint o amser y gall Bil ei gymryd i fynd ar ei hynt drwy'r Senedd. Fodd bynnag, byddai cost bosibl o hyd yn gysylltiedig â'r ansicrwydd a grëwyd ynglŷn â pha ddeddf a fydd yn gymwys i ddigwyddiad neu weithgaredd trethadwy nes i'r ddeddfwriaeth gael Cydsyniad Brenhinol a chychwyn.
  8. Byddai hefyd yn arwain at gostau ychwanegol i ACC (a threthdalwyr) a fyddai'n gysylltiedig â chasglu treth o'r trethdalwyr hynny a oedd yn talu yn seiliedig ar y gyfraith gyfredol, yn hytrach na'r gyfraith sy'n cynnwys y newidiadau a oedd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth sylfaenol cyn iddi gael Cydsyniad Brenhinol. Ym mron pob achos, mae'n debygol y byddai'r dreth a delid yn seiliedig ar y gyfraith gyfredol ac na fyddai'n seiliedig ar y newidiadau. Mae'n bosibl y bydd defnyddio gweithdrefnau bil Brys neu 'garlam' yn lleihau rhywfaint o'r ansicrwydd a grëid gan yr amserlenni byrrach.
  9. Efallai y bydd yr amserlenni byrrach ynghyd â gofynion Bil Brys neu Fil 'carlam' yn gofyn am neilltuo cryn dipyn o adnoddau gan Lywodraeth Cymru, er y byddai hynny am gyfnod byr, a gallai hyn effeithio ar fusnes arall Llywodraeth Cymru (ac efallai peri oedi iddo hyd yn oed). Efallai y bydd llai o gyfle i graffu hefyd (gweler paragraffau 2.23-2.27).

### *Manteision*

10. Un o fanteision yr opsiwn hwn yw nad oes angen unrhyw adnoddau ar hyn o bryd i'w ddatblygu. Fodd bynnag, pe bai angen i Lywodraeth Cymru wneud newid ar fyr rybudd, yna bydd angen Bil Brys neu 'garlam' a byddai hyn yn gofyn am adnoddau ychwanegol.

## **Opsiwn 2: Rhoi Bil ar waith er mwyn ei gwneud yn bosibl i reoliadau gael eu cyflwyno i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru o dan amgylchiadau penodol ar fyr rybudd**

---

<sup>43</sup> Gweler y rhestr termau

11. Yn y senario hwn, byddai Gweinidogion Cymru yn cael y pwerau i wneud newidiadau penodol i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd. Ar gyfer pob un o'r mathau o newidiadau a nodir ym mharagraff 3, mae hyn yn golygu y byddai gan Weinidogion Cymru ddull o ymateb yn brydlon ac yn gymesur:
- i. **Er mwyn atal achosion o osgoi neu efadu trethi a ddatganolwyd i Gymru.** Mae'r gallu i atal gweithgarwch osgoi ac efadu er budd dinasyddion Cymru am y bydd yn diogelu'r refeniw y mae gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu arno. Mae'n annheg i bobl geisio osgoi, neu'n waeth fyth, efadu eu cyfran deg o'u rhwymedigaethau treth. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gallu ymateb mor gyflym â phosibl er mwyn rhoi terfyn ar y gweithgarwch hwn.
  - ii. **Er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol.** Mae'r gallu i wneud newidiadau yn gyflym er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol wedi'i anelu'n bennaf at ddiogelu enw da Llywodraeth Cymru.
  - iii. **Mewn sefyllfaoedd eraill lle mae angen eithriadol.** Mae hwn yn faes lle mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd yn gallu ymateb mewn da bryd i sefyllfaoedd annisgwyl. Mae'n anodd rhagweld unrhyw gostau a fydd yn gysylltiedig â defnyddio'r pŵer mewn perthynas â'r maes hwn. Fodd bynnag, byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio cyn lleied â phosibl o dan yr amgylchiadau hyn.
  - iv. **Pan wneir newidiadau i drethi rhagflaenol y DU gan Lywodraeth y DU a fydd yn effeithio ar yr addasiad i grant bloc Cymru ac, felly, adnoddau Llywodraeth Cymru yn gyffredinol.** Byddai ymateb yn amserol yn golygu bod newidiadau yn gallu cael eu gwneud i'r trethi datganoledig er mwyn diogelu'r refeniw sydd ar gael ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru.
12. Yr anallu i ymateb yn brydlon i newidiadau a wneir i drethi rhagflaenol y DU yw'r hyn sy'n fwyaf tebygol o gael effaith arwyddocaol ar refeniw Cymru. Mae'r gost bosibl yn dibynnu ar faint y newid polisi a roddir ar waith gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r trethi rhagflaenol i'r rhai a ddatganolwyd i Gymru. Fodd bynnag, gallai'r newid hwn fod yn arwyddocaol iawn; er enghraifft, mae senario 4 ym Mhennod 4 yn rhoi enghraifft ddiweddar lle y cyflwynwyd cyfraddau uwch treth dir y dreth stamp ar gyfer anheddau ychwanegol yn 2016 a gynyddodd yr ymdrech dreth<sup>44</sup>. Cododd y cyfraddau uwch yng Nghymru tua £60 miliwn yn 2018-19. Pe na bai Cymru wedi bod mewn sefyllfa i ymateb a chyflwyno cyfundrefn debyg (drwy welliant i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn ystod ei hynt drwy'r Senedd), byddai'r addasiad i'r grant bloc wedi bod yn llawer mwy na'r refeniw o dreth trafodiadau tir, a fyddai wedi arwain at leihad yn adnoddau cyffredinol Llywodraeth Cymru.

---

<sup>44</sup> Mae "ymdrech treth dir y dreth stamp" yn cyfeirio at faint o dreth y mae'r dreth a ragflaenodd dreth trafodiadau tir yn ei chasglu. Os bydd yr ymdrech yn fwy, bydd yr addasiad i'r grant bloc yn cynyddu, gan arwain at fwy o leihad yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, gan leihau ei hadnoddau yn gyffredinol. Os bydd ymdrech treth dir y dreth stamp yn lleihau bydd y gwrthwyneb yn digwydd, gan arwain at fwy o adnoddau i Lywodraeth Cymru yn gyffredinol.



*Effaith defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol dros dro a'r weithdrefn 'uwchgadarnhaol' dros dro ar drethdalwyr*

13. Cynigir y byddai pŵer 1 yn defnyddio gweithdrefn gadarnhaol dros dro ac y byddai pŵer 2 yn defnyddio gweithdrefn 'uwchgadarnhaol' dros dro. Mae'r weithdrefn hon yn wahanol i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft am fod effaith y rheoliadau yn gallu cael ei gwneud, a gall ddod i rym, cyn i'r Senedd gymeradwyo gwneud y rheoliadau. Mae'r rheoliadau a wneir yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol dros dro yn cael effaith dros dro nes i'r Senedd bleidleisio arnynt. Os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r rheoliadau, bydd y newidiadau yn cael effaith barhaol. Os na fydd y rheoliadau yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, bydd gan drethdalwyr sydd wedi talu mwy o dreth o ganlyniad i'r newidiadau aflwyddiannus hynny hawl i wneud cais i unrhyw dreth ychwanegol a dalwyd gael ei had-dalu gan ACC. Ar y llaw arall, os bydd trethdalwyr wedi talu llai o dreth nag y byddent wedi'i wneud, ac nad yw'r rheoliadau yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, ni fydd ACC yn gallu ceisio'r dreth ychwanegol honno. Caiff y risg sy'n gysylltiedig â'r rheoliadau ei dwyn gan Lywodraeth Cymru yn unig ac nid gan drethdalwyr Cymreig.
14. Caiff costau uniongyrchol cyflwyno'r ddeddfwriaeth eu talu gan ddefnyddio cyllid presennol swyddogion a gwasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw gostau ar wahân y gellir eu nodi yn gysylltiedig â chyflwyno'r ddeddfwriaeth hon.

### *Manteision*

15. Prif fantais yr opsiwn hwn yw ei fod yn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru ddull priodol o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd o dan amgylchiadau penodol yn hyblyg gan sicrhau bod y Senedd yn craffu arnynt yn briodol. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol pan wneir newidiadau i drethi rhagflaenol y DU gan Lywodraeth y DU y gallai fod iddynt oblygiadau i fusnesau yng Nghymru, y farchnad eiddo yng Nghymru a'r adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

### **Opsiw 3: Cyflwyno'r hyn sy'n cyfateb i Fil Cyllid blynyddol Llywodraeth y DU**

16. Mae paragraffau 2.42-2.50 yn ystyried yn fras opsiynau posibl ynglŷn â phrosesau ar gyfer craffu ar gyllidebau, trethi a chyllid yn y dyfodol yng Nghymru. Mae'n amlwg bod i gyflwyno Bil Cyllid blynyddol posibl (yn hytrach na Bil Cyllideb<sup>45</sup>) i Gymru oblygiadau ehangach nag at ddibenion cyflawni'r nodau polisi

---

<sup>45</sup> Byddai '**Bil Cyllideb**' yn cynnwys dyrannu cyllid ac awdurdodi gwariant gan bob rhan o Lywodraeth Cymru. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn darparu dull o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Byddai '**Bil Cyllid**', i bob pwrpas, yn cynnwys mesurau codi referniw a rhai penderfyniadau ynghylch pennu trethi, ond ni fyddai'n cynnwys cynlluniau gwariant. **Byddai** hyn yn darparu dull o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.

o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Byddai'n cynnwys mesurau codi referniw a rhai penderfyniadau ynghylch pennu trethi, ond ni fyddai'n cynnwys cynlluniau gwariant. Felly, gellid defnyddio Bil Cyllid i ddarparu dull o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Fodd bynnag, nid yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn gymesur, ar hyn o bryd, gael Bil Cyllid blynyddol (neu lai aml).

17. Yn y dyfodol, os ystyrir bod Bil Cyllid yn gyfrwng deddfwriaethol priodol i Gymru, yna byddai costau ychwanegol yn gysylltiedig â chyflwyno proses Bil flynyddol. Mae hefyd yn debygol y byddai angen cyflwyno bil ychwanegol sy'n cyfateb i Ddeddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 Llywodraeth y DU, y byddai costau yn gysylltiedig ag ef hefyd. Mae Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 yn ei gwneud yn bosibl i fesurau gael eu cyflwyno a fydd yn cael effaith dros dro ar unwaith drwy gynnig ffyrdd a moddau. Heb deddfwriaeth gyfatebol yng Nghymru, byddai angen i unrhyw newidiadau a gyflwynid drwy Fil Cyllid gael eu cyflwyno naill ai'n ôl-weithredol gan ddechrau ar y dyddiad y'u cyflwynwyd neu'r dyddiad y cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol.
18. Yn olaf, mae Pennod 2 yn nodi, er y byddai'n bosibl defnyddio Bil Cyllid i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, y byddai cyfyngiadau. Mae'n debygol y bydd anawsterau wrth geisio cynnal cyllideb y DU a phrosesau cyllidebol Llywodraeth Cymru ar yr un pryd. Efallai y bydd cyllidebau ychwanegol ar gyfer y DU sy'n cyflwyno newid sy'n cael effaith sylweddol ar referniw treth dir y dreth stamp, er enghraifft, a allai gael eu cyhoeddi y tu allan i amserlen proses Cyllideb Cymru, a fyddai'n arwain at oedi cyn i Lywodraeth Cymru allu ymateb. Fel arall, pan fo cylchoedd cyllidebol Cymru a'r DU yn cyd-redeg â'i gilydd i ryw raddau, mae'n bosibl mai dim ond yng Nghyfnod 2 neu 3 o Fil Cyllid posibl i Gymru sy'n cyfyngu ar gyfleoedd craffu y gellid cyflwyno'r newidiadau. O gofio'r cysylltiad rhwng yr ymdrech dreth a wneir gan drethi rhagflaenol y DU a'u heffeithiau ar adnoddau Llywodraeth Cymru, mae'r gallu i ymateb yn gyflym, yn hyblyg a'r tu allan i broses Cyllideb Cymru yn hanfodol. Fel arall, gallai hyn gael effeithiau negyddol ar adnoddau Llywodraeth Cymru, busnesau, y farchnad eiddo neu'r amgylchedd.
19. Prif fantais yr opsiwn hwn yw y byddai'n lleihau'r goblygiadau i adnoddau deddfwriaethol drwy gynnwys dull o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru mewn cyfrwng deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes yn hytrach na Bil annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'n opsiwn ymarferol ar hyn o bryd am nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw gynlluniau i gyflwyno Bil Cyllid.

## **Crynodeb**

20. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir gan Lywodraeth Cymru. Y bwriad yw sicrhau bod gan Weinidogion Cymru ddull priodol a chymesur o wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd o dan amgylchiadau penodol, gan sicrhau bod gan y Senedd ddigon o amser i graffu. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol pan wneir newidiadau i drethi rhagflaenol y DU gan Lywodraeth y DU y gallai fod iddynt oblygiadau i'r adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

21. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n flaenorol dair mantais allweddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno Deddfau Trethi Cymru:
- Sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol
  - Cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus yng Nghymru fuddsoddi mewn gwella llesiant,
  - Darparu gwell ysgogiadau cyllidol i Weinidogion Cymru a defnyddio'r ysgogiadau hyn i wella canlyniadau pobl Cymru.
22. Mae'r manteision hyn yn cyd-fynd â gofynion *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*<sup>46</sup> a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016. Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol yng Nghymru a helpu i greu gwlad rydym oll am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.
23. Bwriedir i'r ddeddfwriaeth arfaethedig hon barhau i gefnogi manteision hysbys Deddfau Trethi Cymru yn y ffyrdd canlynol:
- Sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol.** Bwriedir i'r ddeddfwriaeth ddarparu dull ychwanegol o ddileu cyfleoedd a nodwyd i efnegu ac osgoi trethi yn gyflym, gan sicrhau bod y rhai y mae angen iddynt dalu yn talu mewn ffordd amserol a chan alluogi cydymffurfiaeth.
  - Cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus yng Nghymru fuddsoddi mewn gwella llesiant.** Mae'r ddeddfwriaeth yn helpu i gyflawni'r nod o fabwysiadu system casglu a rheoli treth er mwyn cyflawni blaenoriaethau Cymru. Mae'n darparu dull ychwanegol er mwyn sicrhau y gall Gweinidogion Cymru wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru mewn ffordd hyblyg a chymesur, yn enwedig mewn ymateb i newidiadau i drethi rhagflaenol a wneir gan Lywodraeth y DU a allai effeithio ar adnoddau cyffredinol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddiogelu ei chyllid a ddefnyddir i gyllido gwasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd yn helpu i gyflawni'r nod llesiant o greu Cymru lewyrchus a chymunedau cydlynus.
  - Darparu gwell ysgogiadau cyllidol i Weinidogion Cymru.** Nodwedd allweddol ar bwerau 1 a 2 yw y gellir rhoi effaith y newidiadau ar waith ar unwaith, gan gynyddu refeniw, neu ei leihau os mai polisi Llywodraeth Cymru yw gwneud hynny, a rhoi eglurder i drethdalwyr. Bydd yr ysgogiad cyllidol gwell hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gael yr un pŵer â Llywodraeth y DU ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau ar unwaith i'r trethi datganoledig, gan leihau'r effaith bosibl ar adnoddau cyffredinol Llywodraeth Cymru. Mae galluogi newidiadau deddfwriaethol i gael effaith ar unwaith hefyd yn sicrhau y gall trethdalwyr gael budd o'r newidiadau hynny cyn gynted â

---

<sup>46</sup> Gellir gweld Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn:  
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted>

phosibl. Mae hyn yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu rheoli'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn well. Mae hyn yn unol â'r nod llesiant o greu Cymru lewyrchus, gan ein galluogi i ddarparu gwell ysgogiadau cyllidol i Weinidogion Cymru a defnyddio'r ysgogiadau hyn i wella canlyniadau pobl Cymru cyn gynted â phosibl.

### **Cwestiwn 19**

*A ydych yn cytuno â'n hasesiad o'r opsiynau amgen?*

### **Cwestiwn 20**

*A oes unrhyw effeithiau neu gostau penodol yn gysylltiedig ag unrhyw rai o'r opsiynau a nodwyd yr hoffech eu codi?*

### **Cwestiwn 21**

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r dewisiadau yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

### **Cwestiwn 22**

Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y opsiynau, yn eich barn chi:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Atodiad 2

### Geirfa

1.	Gweithdrefn gadarnhaol / gweithdrefn gadarnhaol ddrafft	<p>Math o weithdrefn y Senedd sy'n gymwys i offerynnau statudol (OSau).</p> <p>Rhaid i OSau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol gael eu cymeradwyo gan y Senedd cyn iddynt gael eu gwneud neu eu dwyn i effaith gan Weinidogion Cymru. Mae'r Gweinidog yn gosod yr OS ar ffurf drafft a dim ond os caiff ei gymeradwyo drwy benderfyniad y Senedd y gall y Gweinidog lofnodi'r OS er mwyn ei wneud. Dim ond wedi iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd y gall yr OS gael effaith. Byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio gosod yr OS ar ffurf drafft cyn gynted â phosibl wedi i'r angen am newidiadau gael ei nodi.</p>
2.	Gweithdrefn gadarnhaol dros dro / gweithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'	<p>Math o weithdrefn y Senedd sy'n gymwys i offerynnau statudol (OSau).</p> <p>Mae'r weithdrefn yn galluogi OS i ddod i rym ar y diwrnod y'i gwneir gan y Gweinidog. Fodd bynnag, er mwyn i'r OS barhau mewn grym, rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd o fewn cyfnod amser penodedig, fel arfer 28 diwrnod eistedd o'r adeg y gwneir yr OS gan Weinidogion Cymru.</p>
3.	Gweithdrefn 'uwchgadarnhaol' dros dro	<p>Math o weithdrefn y Senedd a gynigir a fyddai'n gymwys i offerynnau statudol (OSau), lle byddai angen i'r gofynion gweithdrefnol ychwanegol gael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol.</p> <p>Byddai'n debyg i'r weithdrefn gadarnhaol dros dro i'r perwyl y byddai'n galluogi OS i ddod i rym ar y diwrnod y'i gwneir gan y Gweinidog. Fodd bynnag, er mwyn i'r OS barhau mewn grym, byddai rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan benderfyniad y Senedd. Gallai'r gofynion gweithdrefnol ychwanegol gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• cyfnod hwy rhwng gwneud yr OS a phleidlais y Senedd i gymeradwyo'r OS, er mwyn galluogi Aelodau'r Senedd a phwyllgorau perthnasol y Senedd i gael cyfle priodol i graffu ar y newidiadau hynny.</li><li>• 'clo' y Senedd a orfodir ar ddefnyddio'r pŵer. Dim ond pan fo'r Senedd yn cytuno bod yr amgylchiadau yn arwain at y newid yn golygu bod angen i'r</li></ul>

		newidiadau ddod i rym ar unwaith y gallai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer.
4.	Grant bloc	Cyfran yr adnoddau sydd ar gael oddi wrth Lywodraeth y DU a ddyrennir i Gymru.
5.	Addasiad i'r grant bloc	Y swm a dynnir o'r grant bloc neu a ychwanegir ato. Gellir cymharu'r gostyngiad neu'r ychwanegiad hwn i'r refereniw disgwylidig o drethi a gollid gan Lywodraeth y DU o'r trethi rhagflaenol ac yn sgil datganoli'r dreth incwm yn rhannol.
6.	Rheoliadau a fethodd	Achosion lle nad yw'r Senedd yn cymeradwyo OS. Gallai hyn fod oherwydd ei bod yn gwrthod y rheoliadau yn bendant drwy bleidlais, neu oherwydd ei bod yn methu â chymeradwyo'r rheoliadau o fewn yr amser penodedig y mae'n rhaid rhoi cymeradwyaeth yn unol ag ef.
7.	Trethi rhagflaenol	Cyfeiria hyn ar hyn o bryd at Dreth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi – trethi cyfatebol y DU ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli yn awr yng Nghymru.
8.	Bil Cyllid Cymru	Byddai 'Bil Cyllid' Cymru yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â threthi datganoledig Cymreig (ee newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru i gyflwyno rhyddhadau neu eu newid, a gosod cyfraddau trethi), ond ni fyddent yn cynnwys cynlluniau gwariant. Byddai hyn yn darparu mecanwaith ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.  Nid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn gymesur ar hyn o bryd i gyflwyno Bil Cyllid yn flynyddol (neu'n llai aml).
9.	Bil Cyllideb a Chyllid Cymru	Byddai un 'Bil y Gyllideb a Chyllid' Cymreig yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â: <ul style="list-style-type: none"> <li>• phenderfyniadau (gwario) sy'n gysylltiedig â chyllideb Llywodraeth Cymru (pe byddai Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn penderfynu disodli'r mecanwaith presennol lle y caiff y gyllideb ei chymeradwyo gan gynnig yn y Senedd);</li> <li>• trethi datganoledig Cymreig (er enghraifft, newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymreig er mwyn cyflwyno rhyddhadau neu eu newid, a gosod cyfraddau trethi).</li> </ul> Byddai hyn yn darparu mecanwaith ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Fodd bynnag, byddai'n ddull hynod anghyffredin ac yn cynnwys amryw o risgiau a heriau.

